



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  

---

**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

**CYNLLUN STRATEGOL  
CYMRAEG MEWN ADDYSG**

**2017 – 2020**

*'Putting children first..... helping schools improve'*  
*Gosod plant yn Gyntaf..... yn helpu i wella ysgolion*

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020

### • Gweledigaeth

Mae'r iaith Gymraeg yn elfen allweddol o agenda Cydraddoldeb y Cyngor. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy gadw at yr Egwyddorion Arweiniol canlynol:

- Mae hawl gan unigolion i ddelio â ni yn y Gymraeg.
- Rhaid gosod y Gymraeg i gael ei darllen yn gyntaf (ar y chwith neu uwch ben y Saesneg).
- Hawliau ieithyddol i'r staff.
- Mae ansawdd y gwasanaeth ac agwedd gadarnhaol yn bwysig.
- Rhaid i ni gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg er mwyn rhoi'r dewis o iaith.
- Caiff manteirion addysg ddwyieithog eu hyrwyddo.

### Gweledigaeth yr iaith Gymraeg ar gyfer Merthyr Tudful

Bydd yr Egwyddorion Arweiniol hyn yn cefnogi'r Cyngor wrth gyflenwi'r Weledigaeth iaith Gymraeg ganlynol ar gyfer Merthyr Tudful:

“Man sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.”

Caiff hyn ei gyflawni drwy allugoi ac annog:

- Darpariaeth eang o addysg cyfrwng Cymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol.
- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn y cartref ac wrth hamddena.
- Y cysyniad fod iaith yn sgil bywyd, sy'n cyfoethogi bywydau'r rheini sy'n eu defnyddio nhw.
- Pobl ledled y Fwrdeistref Sirol i deimlo balchder yn eu hiaith a'r hyder i'w defnyddio hi.

Mae'r delfrydau hyn yn fwiadol ymestynnol – ni fyddant yn cael eu cyflawni dros nos, eithr dros y tymor hir. Ein gweledigaeth ni yw annog newid diwyllianol yn y modd y caiff y ddwy iaith eu canfod yn y Fwrdeistref Sirol hon. Rydym am wneud gwahaniaeth.”

Bydd y Cyngor yn dilyn yr Egwyddorion Arweiniol hyn ac yn gweithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparydd gwasanaeth, comisiynydd a chyflogwr sy'n gweithio mewn partneriaeth drwy, ac â'n rhanddeiliaid yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae gweledigaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ddogfennau strategol allweddol Llywodraeth Cymru fel *laith Fyw: laith Byw 2012-2017* a'r canlyniadau a'r targedau a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (WMES). Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016, yn amlygu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru i hyrwyddo llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth, neu ofalwyr sydd angen cymorth. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn amlygu'r angen i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwyllianol Cymru. Mae'n ofynnol bellach ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau a roddir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Un o'r nodau hynny yw “Pobl Cymru'n cymryd rhan yn y diwylliant a rannwn â'n gilydd a'r Gymraeg yn ffynnu”. Mae darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn allweddol yn hyn o beth, felly ein nod yw parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o safon dda. Bydd y Ddeddf yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ystyried sut y gallant weithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd yn y tymor hwy, ac i fabwysiadu dulliau ataliol a chydweithio er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Mae'r ddogfen hon hefyd yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru i “alluogi'r Gymraeg i ffynnu” fel yr amlinellir yn y ddogfen Cymwys am Oes – Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes (2015). Cafodd y ddogfen ei hysgrifennu er mwyn adlewyrchu'r argymhellion a nodwyd yn “Un iaith i Bawb” gan ganolbwyntio ar yr angen i ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd Cenedlaethol fel sail ar gyfer y cwricwlwm diwygiedig fel bod un continwmm ar gyfer dysgu'r Gymraeg gyda disgygliadau clir i ddisgyblion. Yn yr awdurdod, “**Dysgu am Oes**” yw'r prif flaenoriaeth ar gyfer *Cynllun Integredig Unigol 2016-2020* yr awdurdod. Bydd y thema hon yn helpu i gyflawni'r weledigaeth i Ferthyr Tudful a'r canlyniadau blaenoriaeth.

### Amcanion:

Nod ac amcanion Aadrannau Ysgolion yw hyrwyddo safonau gwell o gyrhaeddiad, lles, presenoldeb, ymddygiad a chyflawniad pob disgybl waeth beth fo'u cefndir economaidd ar draws pob cyfnod allweddol i ddisgyblion 3-19

oed. Drwy weithio ar draws adrannau caiff hyn ei estyn i 0-19 oed. Mae hyn yn hanfodol os ydym am dorri'r cylch o dlodi rhwng cenedlaethau yn ein hardal awdurdod lleol, gwella dyheadau a gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc a gwella eu cyfleoedd byw. Mae hyn yn aliniedig â Strategaeth Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg CBSMT a bydd hyn yn cael ei gydblethu gyda'r themâu canolog canlynol fel yr amlinellwyd yn *Iaith Fyw: Iaith Byw* er mwyn ategu targed Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050;

- galluogi pobl Merthyr Tudful i allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno,
- annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd,
- hyrwyddo buddiannau dwyieithrwydd,
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc,
- cynyddu'r ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg, a
- chryfhau safle'r Gymraeg yn y gymuned.

### Datganiad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gweithio drwy'r fforwm cyfrwng Cymraeg a phartneriaid eraill i ysgogi twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg fel y dangosir gan y canlynol gan yr awdurdod:

- buddsoddiad yn ei ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol (dros £7.1m). Nid yw'r ffigur hwn wedi newid i sicrhau bod nifer y llefydd yn ateb y galw cynyddol yn y dyfodol. Hyd yma, mae'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn agos i fod yn llawn. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fonitro'r galw drwy arolygon rhieni a thrwy ddadansoddi data a geir o'r ddarpariaeth Blynyddol Cynnar ac lechyd er mwyn rhoi ffigurau a ragwelir;
- bydd gwaith allweddol yn cael ei wneud gyda phartneriaid, i hyrwyddo a chreu galw pellach am addysg cyfrwng Cymraeg dros y tair blynedd nesaf. Caiff targedau ar gyfer 2021 eu gosod nawr i gynyddu'r niferoedd o 5% (36 disgybl) i 9% (55 disgybl) o gyfanswm nifer y disgyblion yn yr awdurdod, sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gellir addasu hyn ymhellach o ganlyniad i adborth o'r arolwg rhieni. Mae rhagolygon cyfredol hyd at 2021 yn dynodi fod yna gapasiti i fodloni'r galw cyfredol a chynnydd uwch ben y galw a ragwelir. Bydd targedau ar gyfer y tu hwnt i 2021 yn cynyddu yn unol â Strategaeth Iaith Gymraeg CBSMT hynny yw:

*Er mwyn cyflawni targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, byddai angen bod yna ddyblu ar ganran y siaradwyr Cymraeg yn digwydd, hynny yw, cynnydd o 8.9% i 17.8% ym Merthyr Tudful. Er mwyn cyflawni hyn erbyn 2050, mae angen cynnydd o tua 0.3% y flwyddyn. Mae hyn yn gyfartal â 177 ychwanegol o bobl bob blwyddyn ym Merthyr Tudful sy'n gallu siarad Cymraeg yn seiliedig ar y boblogaeth bresennol sef 59,000).*

- cynllun i roi arolygon i rieni i asesu eu galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn capasiti mwy pellgyrhaeddol er mwyn ysgogi galw erbyn 2017;
- cynnal cyfraddau uchel o ddilyniant rhwng gwahanol gyfnodau allweddol, gan gynnwys trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn gyson yn 100% bob blwyddyn;
- cydweithio hirsefydlog, llwyddiannus sydd o fudd i'r ddwy ochr gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf i ddarparu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, a lle gofynnir am gynrychiolaeth ohono ar gyfer fforwm y Gymraeg; a
- chynllun i edrych ar feysydd o gydweithio o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Consortiwm Canolbarth y De.

Yn ei waith cynllunio strategol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r prif themâu a amlinellwyd yn y ddogfen 'Ailysgrifennu'r Dyfodol', mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn blaenoriaethu:

- Gwella Ysgolion – safonau a lles;
- Ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned;
- Blynyddoedd Cynnar a phwysigrwydd sgiliau cyfathrebu;
- Disgwyliadau a dyheadau uchel gan bawb; a
- Darpariaeth – cymorth, diogelu, hygyrchedd a nifer y lleoedd mewn ysgolion.

- **Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan Adran 10 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Mae gan yr awdurdod ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'r ysgol agosaf sydd ar gael os ydynt yn byw o fewn pellter "tu hwnt i gerdded" i'r ysgol honno. Diffinnir y gyfraith sy'n ymwneud â "phellter cerdded" fel dwy filltir i oed cynradd a thair milltir i oed uwchradd wedi'i fesur yn ôl y llwybr cerdded diogel agosaf sydd ar gael. Mae hyn yn golygu:

- Darperir cludiant am ddim i ddisgyblion oed cynradd sy'n byw y tu allan i bellter cerdded o 2 filltir;
- Darperir cludiant am ddim i ddisgyblion oed uwchradd sy'n byw y tu allan i bellter cerdded o 3 milltir;

Mae'r meini prawf pellter yn gymwys i bob ysgol gan gynnwys ysgolion ffydd a chyfrwng Cymraeg ac yn gymwys i'r disgyblion hynny sy'n mynychu Ysgol Rhydywaun yn RCT.

- **Dangoswch sut y byddwch yn cyflawni Canlyniadau 1-7 gan gyfeirio at adran 19 ar gyfer yr hyn sydd angen i chi ei gynnwys.**

#### **Canlyniad 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

##### Sefyllfa Bresennol

Ysgol Rhyd-y-Grug – 41 disgybl wedi eu dyrannu mewn Ysgol Feithrin ers Medi 2017.

Ysgol Santes Tudful – 62 disgybl wedi eu dyrannu mewn Ysgol Feithrin ers Medi 2017.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi gweld cynnydd cyson yn nifer y plant saith oed a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae rhagolygon wedi'u pennu yn seiliedig ar y data sydd gennym. Yn ogystal â hyn, mae gan yr awdurdod lleol darged o gynydd o 5% (36 disgybl) erbyn 2020/21 o gyfanswm y disgyblion yn yr awdurdod yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (Blwyddyn 2)	90	82	92	97(est)*	91(est)	91(est)
Canran y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	12%	11.5%	13.86%	17.5%*	12.33%	12.43%

	2011/12	2012/13	2013/14
Nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (Blwyddyn 2)	72	67	88
Canran y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	11.28%	11.71%	13.21%

Y pedwar prif amcan i gyflawni'r canlyniad hwn yw:

- hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg gyda phartneriaid a rhieni i ysgogi'r galw,
- hyrwyddo buddiannau dwyieithrwydd,
- parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o safon uchel,
- galluogi cynhwysiant a hygyrchedd i addysg cyfrwng Cymraeg, a
- defnyddio cyfraddau geni, demograffeg a data tueddiadau fel sail ar gyfer cynllunio am niferoedd mewn ysgolion.

Mae'r Strategaeth Hyrwyddo Iaith Gymraeg Corfforaethol yn canolbwyntio ar y nifer o siaradwyr Cymraeg ym Merthyr Tudful. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r gweithredoedd a'r buddsoddiad a fydd yn arwain at y cynnydd

hwn. O ganlyniad i hyn caiff targedau eu gosod. Yna bydd hyn yn llywio ailymweliad â'r targedau ar gyfer niferoedd o blant saith oed sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, pe byddai unrhyw alw pellach yn cael ei dynodi ar ôl cynyddu'r targed i 9%. Bydd hyn yn ein galluogi ni i alinio ein targedau gyda'r cynllun corfforaethol a bydd yn cynnwys ystyriaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd dwy ffrwd a/neu gynyddu capasiti drwy ddarparu portacabins, yn ogystal ag addasu'r ystafelloedd presennol i'w newid i fod yn ystafelloedd dosbarth, ble y byddent ar gael.

Er mwyn parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o safon i blant oed cynradd y mae eu rhieni yn gofyn amdani, bydd yr awdurdod yn cynnal adolygiad blynyddol gan ddefnyddio cyfraddau geni, data demograffig a thueddiadau fel sail ar gyfer cynllunio am lefydd mewn ysgolion. Cynhaliodd yr awdurdod arolwg rhieni yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf 2017.

#### Y broses ymgynghori

Cafodd arolwg rhieni y grŵp targed a'r boblogaeth ehangach, a gafodd eu darparu ag amlenni RHADBOST â chyfeiriad, ei hysbysebu a'i hyrwyddo gan gydweithwyr yr ALL a'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag isel iawn oedd y gyfradd ymateb ac nid yw'n bosibl allosod yn hyderus o'r ymateb hwnnw er mwyn cymhwyso ar draws y boblogaeth i gynllunio lleoedd. Fodd bynnag, mae yna bocedi bychain o ymatebion sy'n ffafrio darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a bydd yr ALL yn edrych mewn i gadarnhau p'un a all y disgyblion hyn gael lle o dan y lefel bresennol o'r ddarpariaeth sydd ar gael. Ar hyn o bryd mae yna 82 o ddefnyddwyr lleoedd cyn ysgol mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae yna gapasiti i wneud lle i fwy o blant pe byddai'r angen yn codi. Bydd yr ALL yn parhau, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac archwilio opsiynau i gynllunio darpariaeth y dyfodol, hynny yw, cyfrwng deuol.

**Arolwg Post** – Cynulleidfa darged: rhieni â phlant o dan 2 oed sy'n cael eu darparu ag amlenni RHADBOST â chyfeiriad.

<b>Niferoedd a ddsbarthwyd</b>	<b>1320</b>
<b>Nifer a ddychwelwyd wedi eu cwblhau</b>	<b>99</b>
<b>Nifer a ddychwelwyd heb eu cwblhau</b>	<b>13</b>
<b>Cymraeg yn addysg a ffefrir</b>	<b>3.5% (46 allan o 1307)</b>
<b>Saesneg yn addysg a ffefrir</b>	<b>2.1% (28 allan o 1307)</b>
<b>Ddim yn siŵr o ba addysg a ffefrir</b>	<b>1.6% (21 allan o 1307)</b>
<b>Dim ateb</b>	<b>92.7% (1212 allan o 1307)</b>
<b>Cod post i'r Gymraeg fel addysg a ffefrir</b>	<b>CF46 5 (10) Treharris CF48 4 (9) Ynys Owen/Aber-fan/Troedyrhiw CF47 0 (8) Twynyrodyn</b>

**Crynodeb arolwg ar-lein** – ar gael ledled CBSMT

<b>Nifer a ddychwelwyd wedi eu cwblhau</b>	<b>44</b>
<b>Nifer a ddychwelwyd heb eu cwblhau</b>	<b>Amh</b>
<b>Cymraeg yn addysg a ffefrir</b>	<b>32% (14)</b>
<b>Saesneg yn addysg a ffefrir</b>	<b>7% (3)</b>
<b>Ddim yn siŵr o ba addysg a ffefrir</b>	<b>61% (27)</b>

<b>Cod post i'r Gymraeg fel addysg a ffefrir</b>	<b>CF47 0</b>  <b>CF48 4 <u>Ynys Owen/Aber-fan/Troedyrhiw</u></b>
--	---

**Datganiad Cefnogol:**

Yn y blynyddoedd blaenorol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi gweld nifer y disgyblion yn lleihau ac mae hyn hefyd wedi effeithio ar ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, ar ôl gweld y lleihad yn y niferoedd ar y gofrestr (disgyblion 4-11 oed) o 630 yn 1996 i 562 (Ionawr 2015), bu cynnydd i 711 o ran ffigur PLASC Ionawr ar gyfer 2016. Mae'n bleser cael nodi y bu twf graddol yn y ffigurau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gan fod y ddwy ysgol wedi symud i safleoedd mwy a newydd. Mae nifer y llefydd gwag wedi lleihau i lai na 10%. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i weithio'n agos gyda'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu'r niferoedd posibl yn y ddwy ysgol er mwyn helpu i hyrwyddo twf.

Ar ôl ail-gyfrifo capasiti ledled yr holl ysgolion, mae'r ysgol wedi dynodi gwagle ychwanegol mewn ystafelloedd dosbarth oddi fewn i'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Mae hyn wedi arwain at gynyddu capasiti yn Ysgol Santes Tudful o 390 i 409 ac yn Ysgol Rhyd y Grug o 210 i 260. Mae hyn yn hafalu â 4.9 % (20 disgybl) o leoedd dros ben yn Ysgol Santes Tudful ac 15% (33 disgybl) yn Ysgol Rhyd y Grug. Mae hyn yn fwy ar hyd llinellau targed diwygiedig yr ALI o ran cynnydd o 55 disgybl erbyn 2021.

**Camau a Gynlluniwyd**

Bydd yr awdurdod yn parhau i

- gynnal asesiadau rhagolwg disgyblion blynyddol a fydd yn cael eu defnyddio ynghyd â'r arolwg o alw gan rieni er mwyn llywio strategaethau yn y dyfodol, a
- chyflwyno cais i ddefnyddio'r grant ar gyfer Lleihau Maint Dosbarthiadau i adeiladu ystafell ddosbarth ar safle Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg; bydd hyn yn cynyddu'r capasiti gan 30 yn Ysgol Santes Tudful;
- adolygiad o leoedd sydd ar gael mewn ysgolion er mwyn cynllunio am alw cynyddol mewn ysgolion e.e. defnyddio cabannau dros dro, ceisiadau Band C, trosi darpariaeth cyfrwng Saesneg cyfredol i fod yn gyfrwng Cymraeg. Yn ychwanegol at hyn mae'r ALI yn cynllunio ar gyfer addasaiadau oddi fewn i ysgolion e.e. mae un ystafell sy'n cael ei defnyddio ar gyfer Cerddoriaeth ar hyn o bryd i'w newid i fod yn ystafell ddosbarth yn Ysgol Santes Tudful yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd 2017/18;
  - gwneud cais am estyniad 3 dosbarth yn Ysgol Rhyd Y Grug (o Grant Llywodraeth Cymru o £30 miliwn), gyda chynlluniau i hyn gynnwys Canolfan Adnoddau Dysgu Cyfrwng Cymraeg (Canolfan ADCC). Bydd hyn yn cynyddu capasiti yn yr ysgol ar gyfer yr ysgol feithrin a chyn meithrin. Bydd y Ganolfan ADCC yn darparu cefnogaeth hyblyg ac arbenigol i blant oed cynradd ar draws y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.
  - Fel rhan o'n cais Band B bydd safle ysgol cyfrwng Saesneg yn dyfod i fod ar gael, a gaiff ei ddefnyddio yn ein cais cyflwyniad ar gyfer datblygu ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd yn ardal ogleddol y sir (bydd y cais yn tynnu ar Grant Llywodraeth Cymru o £30 miliwn) gyda darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar (bydd y cais yn tynnu ar Grant Llywodraeth Cymru o £60 miliwn). Bydd hyn yn darparu trydedd ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg gyda lle i 210 o ddisgyblion a fydd yn cynnwys digon o leoedd i ysgol feithrin Cyfrwng Cymraeg a gynhelir a darpariaeth cyn ysgol feithrin. Bydd hefyd yn darparu lle/cyfleusterau i gyd-leoli darpariaeth ar ôl ysgol a gofal plant yn ystod y gwyliau ar yr un safle;
  - Gwneud cais am arian ychwanegol oddi wrth grant Arian Cyfalaf ar gyfer Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar, ond nid yw'r manylion am hyn wedi eu cwblhau eto – nid yw pro forma hawliad grant na'r Telerau ac Amodau ac yn y blaen wedi eu cylchredeg eto. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio cyfleoedd gan ddefnyddio'r ffrwd ariannu hwn i gynyddu capasiti dosbarthiadau cyn Meithrin a Meithrin presenol oddi fewn i ysgolion os yw'n bosibl, yn ogystal â chyd-leoli REPau nas cynhelir a/neu ddarparwyr y Blynyddoedd Cynnar oddi fewn i ysgolion; a
- Dynodi sut i ysgogi twf.

Bydd hyn yn rhoi'r capasiti ar gyfer cynnydd yn y gofyn am addysg Cyfrwng Cymraeg gan gefnogi nodau Llywodraeth Cymru o sicrhau un miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd hyn yn cymryd l ystyriaeth y CDD sydd mewn ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Yn ychwanegol bydd yr ALI yn:

- hyrwyddo buddion dwyieithrwydd wrth rannu gwybodaeth oddi wrth yr holl rieni ynghylch gwneud cais am le ym Meithrin a Derbyn;
- cynnal gweithdai i rieni ynghylch buddion dwyieithrwydd;
- sefydlu grwpiau ffocws gyda rhieni – yn cynnwys rheini sy'n symud o gyn ysgol Cymraeg i gyfrwng Saesneg i ddynodi rhwystrau o ran mynd i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg;
- sefydlu grwpiau ffocws â chefnogaeth cyfrwng Cymraeg i ddynodi rhwystrau ac adeiladu cynllun gweithredu ar y cyd i ysgogi'r galw a chynyddu dilyniant o gyn ysgol drwy addysg gynradd; a
- hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar oddi fewn i ysgolion cyfrwng Saesneg a glustnodwyd ar gyfer prosiectau Band B.

Enw'r ysgol	NOR a ragwelir ar gyfer lonawr 13 fel yr adroddwyd yn lonawr 12	NOR gwirionedd ol ym mis lonawr 2013	%age variance	NOR gwirionedd ol ym mis lonawr 2015	NOR gwirionedd ol ym mis lonawr 2016	NOR gwirionedd ol ym mis lonawr 2017	NOR a ragwelir ym mis lonawr 2018	NOR a ragweli r ym mis lonawr 2019
Ysgol Rhyd Y Grug	146	140	-1.5%	180	204	221	231	245
Ysgol Santes Tudful	363	359	-0.9%	382	392	389	392	402
<b>Cyfanswm</b>	<b>509</b>	<b>499</b>	<b>-2.4%</b>	<b>562</b>	<b>586</b>	<b>610</b>	<b>623</b>	<b>647</b>

Ar hyn o bryd gall yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gynnig lle i hyd at 720 o ddisgyblion.

## 1.2 Mabwysiadu prosesau systematig ar gyfer mesur y galw am ofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg a darpariaeth addysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant (yr Asesiad) 2017-2022 yn darparu trosolwg o ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn ardal CBSMT gan sefydlu darpariaeth gwaelodol. Bydd yr Asesiad yn galluogi:

- mesur natur a'r graddau am yr angen am, a'r cyflenwad o ofal plant ym Merthyr Tudful, a
- bydd yn dynodi bylchau yn y farchnad a chynlluniau am sut y caiff marchnad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ym Merthyr Tudful eu cefnogi i fynd i'r afael â hyn.

Datblygwyd y CSA 2014-17 llawn yn dilyn ymgynghoriad helaeth gyda thros 900 o rieni ar draws yr awdurdod yn cwblhau'r holiadur gofal plant. Cafodd y wybodaeth a gasglwyd ei hategu ymhellach gan amrywiaeth o grwpiau ffocws gan gynnwys un yn seiliedig ar gyflenwad a galw gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae CSA Refresh 2015 yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf i ni o ran y CSA 2014-17 llawn.

Mae darpariaeth bresennol yn y Gymraeg ac yn Ddwyieithog yn ystod y tymor eisoes yn gweithredu yn agos at, neu'n unol â'r capasiti ac mae yna botensial i edrych ar opsiynau dynodi ar gyfer darpariaeth bellach yn y Gymraeg wrth i'r ymgyrch farchnata a gwaith yr awdurdod a ariennir gan Swyddfa'r Iaith Gymraeg barhau er mwyn effeithio ar faint sy'n dewis darpariaeth Gymraeg / ddwyieithog. Er y farn gyffredinol hon, fe fyddai'n gymwys archwilio sut y byddai unrhyw opsiynau newydd yn mynd i'r afael â dymuniadau rhieni am fwy o hyblygrwydd o ran argaeledd darpariaeth yn cynnwys mewn lleoliadau Cymraeg a dwyieithog.

Er ei fod o dan gyfartaledd Cymru (9% v 19%) ar gyfer pob grŵp oedran, mae'r gallu i siarad Cymraeg yn llawer mwy amlwg ymhlith grŵp oedran 3-19 na grwpiau oedran hŷn ym Merthyr a gallai hyn olygu y gallai fod cynyddiadau pellach yn y galw am ddarpariaeth Gymraeg ar lefel y Blynyddoedd Cynnar wrth i'r grwpiau hyn

ddyfod i fod yn rhieni eu hunain. Felly mae 13% o blant 3-4 mlwydd oed ym Merthyr yn siarad Cymraeg, gan godi i 28% ymhlith y 10-14 mlwydd oed.

Er nad ydynt wedi eu dadansoddi yn ôl grŵp oedran, mae ffigurau Cyfrifiad 2011 hefyd yn dangos fod gan breswylwyr wardiau Treharris a Chyfarthfa y lefelau uchaf o'r gallu i siarad Cymraeg a gofnodir ym Merthyr.

Mae data niferoedd ysgol yn arddangos fod yna 971 o blant rhwng 2-11 sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, neu Saesneg â chynnwys Sylweddol o'r Gymraeg ar draws 3 ysgol gynradd o leolir yn Ynys Owen (2) a wardiau'r Dref ym Merthyr Tudful.

Ymhlith rhieni â phlant dibynol dros dair oed ceir gwahaniaethau penodol yn eu gallu i siarad Cymraeg. Fel y mae'r tabl isod yn dangos, mae hyn yn amrywio o 13.7% i rieni 3-4 mlwydd oed i 26.9% o blant 12-15 mlwydd oed.

#### Gallu Rhieni i Siarad y Gymraeg sydd â Phlant Dibynol yn Ôl Oedran y Plant, Merthyr Tudful 2011

Oed y plentyn dibynol	Cyfanswm Nifer y Rhieni	Gallu Siarad Cymraeg	% Rhieni sy'n Gallu Siarad Cymraeg
<b>Yr holl Rieni â Phlant 3 Oed a Hŷn</b>	10,356	2,336	22.6
<b>Oedran Plentyn 3 i 4</b>	1,429	196	13.7
<b>Oedran Plentyn 5 i 11</b>	4,382	1,015	23.2
<b>Oedran Plentyn 12 i 15</b>	2,803	754	26.9
<b>Oedran Plentyn 16 i 18</b>	1,742	371	21.3

Ffynhonnell: 2011 Cyfrifiad, Hawlfraint y Goron

Mae 82 o ddefnyddwyr lleoedd ar hyn o bryd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae yna gapasiti i wneud lle am ragor o blant pe byddai'r galw yn dod i'r fei.

Yn 2015 ailstrwythurodd Mudiad Meithrin ac mae'n ffocysu fwy ar ansawdd a gwella safonau ym mhob Clych Meithrin. Mae'r data yn **Atodaïad 1** yn dangos fod yna ffigurau trosglwyddo isel gan Gylchoedd Meithrin Cefncoed a Thwyncarmel.

Fodd bynnag, cafwyd cynnydd yn y gwir niferoedd sy'n trosglwyddo o Gefn Coed. Mae Twyncarmel yn derbyn nifer o blant Dechrau'n Deg ac felly mae trafndiaeth i Ysgol Santes Tudful yn ffactor diamheuol.

Yn 2016-17, mae un Cylch Meithrin a ariennir gan Dechrau'n Deg wedi gorfod symud o safle ysgol gan fod nifer cynyddol o blant yn yr ysgol. Mae'r Cylch Meithrin wedi'i lleoli'n dros dro ac nid yw wedi cofrestru tan y gellir canfod lleoliad parhaol addas. Unwaith y bydd wedi canfod safle arall ac wedi cofrestru ag AGGCC gallant gynnig llefydd Dechrau'n Deg. Yn y cyfamser, mae teuluoedd wedi cael cynnig darpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg arall mewn cymunedau eraill.

Mae cynnydd wedi cynnwys:

- Cymorth cyfalaf Dechrau'n Deg (15-16) Gylch Meithrin heb gofrestru er mwyn cyflawni cofrestriad AGGCC ac i ddod yn ddarparwr cymeradwy Dechrau'n Deg. Mae'r darparwr yn aros am gofrestriad AGGCC (Soar);
- Sicrhau arian cyfalaf Dechrau'n Deg (16-17) i ddiweddarau amgylchedd dan do a thu allan Cylch Meithrin Dechrau'n Deg (Twyn Carmel)
- Arian grant gofal plant y tu allan i'r ysgol ar gael i glwb gwyliau cyfrwng Cymraeg i gynnig sesiynau gofal dydd am ddim sydd wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n defnyddio'r ddarpariaeth;
- Un Ti a Fi wedi'i sefydlu mewn ardal lle nad oedd gwasanaeth yn flaenorol (Gurnos);
- Un ddarpariaeth Cylch Meithrin wedi ymestyn i sesiynau prynhawn i ateb y galw cynyddol gan deuluoedd (Treharris);
- Un Cylch Meithrin wedi cael arian cyfalaf (14-15) i adleoli i safle newydd ac wedi dod yn Ddarparwr Cymeradwy Dechrau'n Deg (16-16) Cylch Meithrin Treharris;
- Mae'r Cylch Meithrin sydd wedi'i leoli yn y Ganolfan Blant Integredig wedi ymestyn ei wasanaethau mewn ymateb i galw gan rieni; ac
- Mae Mudiad Meithrin yn cyflogi Swyddog Iaith a ariannwyd gan yr awdurdod lleol i gynnig cymorth Cymraeg i



ddarparwyr oed cyn-ysgol.

#### Camau Pellach a Gymerwyd:

Drwy gyflawni Cynllun Gweithredu CSA, mae'r awdurdod yn cynllunio i sicrhau y gall mwy o deuluoedd a fyddai'n hoffi cael gofal plant yn y Gymraeg ddod o hyd iddo a'i ddefnyddio drwy:

- ymateb i gyfraddau trosglwyddo isel o Gefn Coed drwy drefnu cyfarfodydd trosglwyddo i'r Cylch gyda'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n ysgol fwydo;
- dosbarthu gwybodaeth i rieni ynghylch buddion addysg cyfrwng Cymraeg;
- darparu gwybodaeth i arweinwyr hefyd i'w galluogi nhw i siarad yn fwy hyderus â rhieni am eu gofidion ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg;
- parhau i fonitro lefelau trosglwyddo ble y maen nhw'n isel a darparu cefnogaeth ble y bo'n bosibl;
- hyrwyddo darpariaeth Cymraeg a dwyieithog bresennol a chodi ymwybyddiaeth ei fod yn opsiwn sydd ar gael;
- cefnogi darpariaeth Cymraeg a dwyieithog bresennol er mwyn iddynt ddod yn fwy cynaliadwy. Hefyd eu cefnogi i wneud gwaith ymchwil i'r farchnad i weld a ddylent ehangu a/neu ddatblygu eu gwasanaeth i ddiwallu anghenion rhieni yn well; a
- chefnogi darparwyr i gynnal hyfforddiant a datblygu i gynyddu lefel y Gymraeg a ddefnyddiwyd mewn lleoliadau presennol.
  - Ail agor Neuadd Soar ym Mis Medi i ddarparu opsiwn arall i rieni ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
  - O ganlyniad i'r arolwg rhieni i ddynodi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yr ymgwymerwyd â hi eleni, cafodd y meysydd isod eu dynodi fel meysydd ble yr oedd y ffafriaeth am addysg cyfrwng Cymraeg ar eu uchaf.
    - CF47 0 (8) Twynyrodyn
    - CF46 5 (10) Treharris
    - CF48 4 (9) Ynys Owen / Aber-fan / Troedyrhiw

Mae Cylch Meithrin gan Dreharris ac ar hyn o bryd y Cylch Meithrin a gofrestrwyd ag AGGCC sydd agosaf at Ynys Owen/ Aber-fan/ Troedyrhiw yw Cylch Meithrin Pentrebach. Ceir hefyd Gylch Meithrin a gofrestrwyd â AGGCC yng Nghewn Coed a Thwyncarmel, ond nid oes un sydd yn agos at Dwynyrodyn. Fodd bynnag, y mae'n werth nodi fod yna ddau Gylch Meithrin ychwanegol; Soar sydd wedi gwneud cais i gael ei gofrestru gyda AGGCC a bydd yn agor ym mis Medi 2018. Bydd y ddarpariaeth hefyd yn ceisio dyfod yn ddarpariaeth addysg gofrestredig yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd Cylch Meithrin Twyncarmel hefyd yn ceisio cael ei gofrestru fel darpariaeth addysg gofrestredig.

#### Camau a Gynlluniwyd

Parhau i weithio mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin a Chylchoedd Meithrin i sicrhau bod y targedau canlynol yn cael eu cyflawni.

- Ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2017.
- Parhau i gynnig cymorth Cymraeg ym mhob lleoliad Blynyddoedd Cynnar.
- Darparu hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen gan Cefin Campbell o Sbectrwm ym mis Ionawr 2017 o'r enw "Dewis Da/Good Choice".
- Hyrwyddo menter newydd Llywodraeth Cymru Cymraeg i Blant a rhannu'r canllaw a gyhoeddwyd ar ddechrau 2017, 'Dechrau'r daith at ddwy iaith' sy'n ceisio darparu gwybodaeth glir a defnyddiol i rieni, rhannu profiadau teuluoedd addysg cyfrwng Cymraeg a thu hwnt, ac ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin a nodwyd gan rieni ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cefnogi un Cylch Meithrin presennol i ddod yn Ddarparwr Dechrau'n Deg cymeradwy yn 2016-17 (Soar)
- Cefnogi un Cylch Meithrin presennol i nodi safleoedd addas, cofrestru ag AGGCC a dechrau cynnig lleoedd Dechrau'n Deg (Cylch Meithrin Aberfan)
- Gweithio mewn partneriaeth i gefnogi cylchoedd Ti a Fi presennol a datblygu unrhyw gylchoedd Ti a Fi mewn ymateb i fylchau mewn darpariaeth a galw gan rieni.
- Cefnogi pob Cylch Meithrin Dechrau'n Deg a Chymeradwy i geisio sicrhau bod y nifer mwyaf yn eu defnyddio.
- Dynodi a yw cludiant yn rhwystr i drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer oed ysgol statudol.
  - Dynodi o leiaf ddau ddarparwr iaith Gymraeg i adolygu opsiynau am wagleoedd ychwanegol ac opsiynau am ddarpariaeth gwyliau a delir amdano yn ôl yr hyn a osodwyd yng nghynllun gweithredu'r Asiantaeth Cynnal Plant.
  - Rhagor o hyblygrwydd ar gyfer gofal plant cyn, ar ôl ysgol a thros benwythnosau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- Y galw am ofalwyr plant cyfrwng Cymraeg hefyd wedi cael ei ddynodi felly bydd trafodaeth yn digwydd yn ôl y ffordd orau o hyrwyddo a mynd i'r afael â'r angen hwn.

### ***Pa ddarpariaeth sydd ar gael i blant tair oed drwy gyfrwng y Gymraeg a beth yw'ch cynlluniau ar gyfer gwella'r sefyllfa hon?***

#### Y Sefyllfa Bresennol

Ar hyn o bryd, mae tri darparwr addysg nas cynhelir cofrestredig yn cynnig lleoedd rhan amser a ariennir i blant 3 oed ym Merthyr Tudful. Mae un o'r darparwyr hyn yn cynnig addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r lleoliad yn cynnig 26 lle ac ar agor boreau a phrynhawniau. Mae'r lleoliad hwn yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol i gynnig gwasanaeth codi plant a darpariaeth cofleidiol. Pan fydd yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ond yn derbyn disgyblion newydd ym mis Medi, gall y Cylch Meithrin gynnig lleoedd i blant 3 oed cymwys yn nhymor y gwanwyn a'r haf. Mae'r lleoliad hwn hefyd yn ddarparwr Dechrau'n Deg cymeradwy.

Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant Cymraeg lefydd gwag; ac mae rhai darparwyr cyfrwng Cymraeg yn bwriadu cynyddu nifer y lleoedd Cymraeg. Bydd yr awdurdod yn parhau i fonitro cyflenwad a galw am ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a gweithio'n strategol gyda phartneriaid.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin, wedi ariannu Swyddog Cymorth Cymraeg rhan amser sydd hefyd yn gweithio gyda lleoliadau cyfrwng Saesneg i feithrin hyder a gallu staff i ddefnyddio'r Gymraeg.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd yr awdurdod yn parhau i ddatblygu trefniadau cydweithredu gyda Mudiad Meithrin a bydd yn cyflawni hyn drwy;

- Gefnogi un Cylch Meithrin presennol er mwyn datblygu gyda chofrestriad AGGCC
- Cynnig Cymorth Athrawon Cynghorol i'r darparwr addysg cofrestredig i sicrhau safonau uchel o addysgu a Chomisiwn dysgu gyda Mudiad Meithrin i gynnig cymorth y Gymraeg i'r sector
- Bydd yr awdurdod lleol mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin yn parhau i gefnogi a hyrwyddo grwpiau Ti a Fi yn y gymuned fel ffordd o gyflwyno mynediad cynnar i wasanaethau cyfrwng Cymraeg ac i annog faint sy'n manteisio ar ddarpariaeth Cylch Meithrin.

### **1.3 Sicrhau bod cynigion ar gyfer Ysgolion 21ain Ganrif yn cynnwys ystyriaeth lawn o addysg cyfrwng Cymraeg.**

#### Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r awdurdod bob amser wedi cael dull manwl wedi'i gynllunio i leihau'r llefydd gwag ym mhob sector gan gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi cynllunio'n strategol i wella ei adeiladau ysgolion cyfrwng Cymraeg i'w gwneud yn addas at y diben a chaniatáu ar gyfer tyfu yn y dyfodol. Mae Ysgol Santes Tudful wedi'i adleoli i leoliad newydd a gostiodd £6.3m ac mae Ysgol Rhyd y Grug wedi adleoli i leoliad wedi'i ailwampio yn Aberfan (£800,000).

Cafodd Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif yr Awdurdod Lleol ei datblygu gan roi sylw dyledus i'r gofyniad i gynllunio am ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg digonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn y tymor byr, canolig a hir-dymor.

Mae'r awdurdod lleol wedi ailffurfweddu darpariaeth ystafell ddosbarth oddi fewn i'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i gynyddu capasiti yn y ddwy ysgol a chaiff hyn ei gynnwys yn ffurfiol yn ein Trefniadau Derbyn a gyhoeddir ar 1 Hydref 2017 gan ddod i rym yn ystod y flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen. Wrth i ni gynllunio lleoedd ysgol, mae hyn yn rhoi sicrhwydd y bydd y capasiti hwn yn ddigonol ar gyfer galw a ragwelir ar gyfer lleoedd cyfrwng Cymraeg dros y cyfnod tan 2024. Byddwn yn mynd i'r afael â chynnydd hir-dymor ar gyfer galw drwy hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg mewn ailadroddiadau o'r rhaglen yn y dyfodol.

Mae'r awdurdod lleol wedi ffocysu ar helpu i ysgogi galw am lleoedd ychwanegol mewn addysg cynradd cyfrwng Cymraeg drwy ddarpariaeth ychwanegol o addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant ble y bo'n bosibl ac yn sgil

hynny rhoddir ystyriaeth i ddarparu gwagle ychwanegol am leoedd cyn meithrin, meithrin a gofal plant ar gyfer plant 3 a 4 oed drwy grant cyfalaf Cynnig 30 Awr o Ofal Plant.

Mae'r gofyniad i adolygu a diweddarau targedau a rhagolygon am alw a chyflenwad o leoedd addysg Cyfrwng Cymraeg yn elfen graidd o gynllunio lleoedd ysgol yr awdurdod lleol a bydd yn parhau i lywio ein cynllunio ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21 Ganrif ac yn hynny o beth rhoddir ystyriaeth i brosiectau ysgol addas i Ysgolion 21 Ganrif ym Mand B a Bandiau C a D. Ceir hefyd gdnabyddiaeth oddi fewn i'r rhaglen o'r disgwyliadau sydd ar yr awdurdodau lleol i fodloni eu dyletswydd a hyrwyddo a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cynnwys hybu diwylliant Cymraeg i helpu i ysgogi'r galw. (Cafodd hyn ei gynnwys yn natblygiad y rhaglen, gan y caiff cyfleoedd ar gyfer cydleoli darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (gofal plant neu unrhywbeth arall sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg) eu harchwilio a'u hannog ym mhob prosiect ble y mae galw yn bodoli. Y nod yw datblygu ethos dwyieithog drwy ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg / iaith Gymraeg oddi fewn i leoliadau ysgolion cyfrwng Saesneg.

O ganlyniad, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried cyfleoedd fel rhan o'i raglen Band B i gynnwys gwagle cymunedol i'w ddefnyddio ar gyfer darpariaeth iaith Gymraeg, tebyg i Gylch Meithrin. Byddai hyn yn datblygu'r cynhwysiant o grwpiau cymunedol sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i threftadaeth. Caiff y cyfleoedd hyn eu hystyried fel rhan o bob prosiect a gaiff ei gyflenwi drwy'r rhaglen. Byddai lleoliad y ddarpariaeth hon o ganlyniad i leoliad cyfredol ysgolion cyfrwng Cymraeg, fel y gallai'r ALI gyflwyno Cylch Meithrin mewn ardal newydd. Yn dilyn cyflwyno hyn, ymgymerir ag archwilio pellach gyda'r posibilrwydd o sefydlu dosbarth dechrau cyfrwng Cymraeg oddi fewn i safle ysgol cyfrwng Saesneg drwy ddilyn model o ddefnyddio lleoedd dros ben. Byddai hyn yn sicrhau opsiwn mwy ystyrion y gallai'r gymuned leol ei ystyried. Byddai llwyddiant y model hwn yn llywio datblygiad prosiectau'r dyfodol.

Yn ychwanegol at hyn, ceir cysylltiadau â grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod Llywodraeth Cymru (refeniw a chyfalaf) gan fod un o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn ymgeisydd ar gyfer grant refeniw a grant cyfalaf. Cafodd cais ei gyflwyno i LIC fel rhan o'r grant hwn ar gyfer adeiladu ystafell ddosbarth ychwanegol. Byddai hyn yn cynyddu ymhellach y capasiti oddi fewn i'r ysgol. Mae'r ALI yn aros am gymeradwyaeth o'r grant hwn.

#### Camau a Gynlluniwyd

Mae cyfanswm stoc ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y fwrdeistref sirol yn addas ar gyfer addysgu a dysgu yn y 21ain ganrif. Mae pob stoc ysgol arall h.y. ysgolion cynradd/uwchradd cyfrwng Saesneg, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion arbennig, â nifer o ysgolion sydd angen o leiaf rhywfaint o fuddsoddiad er mwyn cyrraedd y safonau hyn, mewn rhai achosion byddai angen buddsoddiad cyfalaf mawr. Bydd yr awdurdod yn parhau i weithio gydag ysgolion a llywodraethwyr i sicrhau bod anghenion yn y dyfodol yn cael eu diwallu. Blaenoriaethwyd gwella adeiladau ysgolion yn y sector cyfrwng Cymraeg cyn datblygu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru.

#### **1.4 Sicrhau cydweithio drwy gonsortia.**

***Sut ydych chi'n bwriadu cydlynu elfennau darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy weithio mewn partneriaeth a chonsortia rhanbarthol?***

#### Y Sefyllfa Bresennol

Ar hyn o bryd gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddarparu ar gyfer pob cais am lefydd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o fewn y ddarpariaeth bresennol ac mae'n cydweithio'n llwyddiannus gyda RCT i ddarparu lefydd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.

#### Camau a Gynlluniwyd

Mae'r Cyd-wasanaeth Addysg, Consortiwm Canolbarth y De (CSC), yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ein hysgolion i gydweithio drwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion mewn awdurdodau eraill. Cynigir amrywiaeth o ddigwyddiadau datblygu proffesiynol parhaus gan gonsortia i bob ysgol. Yn aml mae'r digwyddiadau hyn yn

arwain at ffurfio cymunedau dysgu proffesiynol traws-ffiniol. . Ceir bellach gynrychiolaeth ar y Fforwm Cymraeg o Ysgol Rhydywaun (RhCT)

- Parhau i alluogi cynrychiolaeth ar Fforwm Cymraeg RhCT er mwyn cryfhau arferion gwaith

### ***A ydych chi wedi ystyried gweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos ar gynllunio llefydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg?***

#### Y Sefyllfa Bresennol

Mae partneriaeth llwyddiannus hirsefydlog gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ddarparu addysg ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae Consortiwm Canolbarth y De yn rheoli gwasanaeth gwella ac ymgynghori ysgolion y ddau awdurdod.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd yr awdurdod yn parhau i gynnal y partneriaethau llwyddiannus hyn er mwyn gwella canlyniadau i ddisgyblion a bydd yn edrych ar gyfleoedd i gydweithio ar draws y CSC. Addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

### **1.5 Cynyddu'r gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau addysg trochi a chanolfannau ar gyfer hwyrddyfodiaid**

#### ***Beth yw'ch cynlluniau ar gyfer ymestyn mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy ganolfannau ar gyfer hwyrddyfodiaid neu raglenni trochi hwyr?***

#### Y Sefyllfa Bresennol

Cefnogaeth i hwyrddyfodwyr i Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg ac eithrio 3 oed – mewn lle drwy

1. Y rhaglen i gefnogi athrawon hynny yw Athrawon Bro.
2. Sgiliau ac arbenigedd staff ysgolion yn y ddwy ysgol cyfrwng Cymraeg uchel eu perfformiad.
3. Dynodi ariannu oddi wrth Gonsortiw Canolbarth y De.

Cafwyd dau hwyrddyfodwr a wnaeth gais am addysg cyfrwng Cymraeg hyd yma yn 2016/17 oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol, a chafodd pawb leoliad mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

<b>Hwyrddyfodwyr</b>	<b>2015/16</b>	<b>2016/17</b>
YRYG	38(4 o hwyrddyfodwyr)	37(1 hwyrddyfodwr)
YST	56 (8 o hwyrddyfodwyr)	62(1 hwyrddyfodwr)

Cafodd pob hwyrddyfodwr eu gosod yn eu hysgol ddewisol gyntaf.

#### Gweithredu a Gynllunir

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn darparu cefnogaeth i gynorthwyo i integreiddio yn ôl galw ac angen ysgolion unigol ac yn cyflwyno amrywiaeth o ddeunyddiau addas i gefnogi ysgolion ymhellach. Ar hyn o bryd mae Consortiwm Canolbarth y De yn archwilio cyfleoedd i ddarparu darpariaeth or fath ar sail ranbarthol.

### **1.6 Sefydlu Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg a sefydlu cysylltiadau gyda Chynllun Plant a Phobl Ifanc. Sicrhau ystyriaethau ar gyfer adnoddau a chyllid ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg o fewn blynyddoedd cynnar.**

#### ***Beth yw eich prosesau cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg?***

#### Y Sefyllfa Bresennol

Wrth gynllunio llefydd mewn ysgolion, mae'r awdurdod yn monitro tueddiadau poblogaeth disgyblion, y galw am addysg cyfrwng Cymraeg a nifer y llefydd gwag mewn ysgolion er mwyn rhagweld galw yn y dyfodol yn gywir. Mae'r awdurdod hefyd wedi gwella stoc adeiladau cyfrwng Cymraeg i sicrhau y gellir darparu ar gyfer unrhyw gynnydd mewn galw yn y dyfodol.

Caiff y gwaith o gynllunio llefydd mewn ysgolion ei werthuso ddwywaith yn ystod y flwyddyn ysgol a chaiff tueddiadau, yn lleol ac yn genedlaethol, eu dadansoddi. Mae'r arfer hwn wedi galluogi digon o lefydd ym mhob math o ysgol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r awdurdod wedi adolygu dalgyllch y ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, y cytunwyd arno yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16, bydd dalgyllch Ysgol Rhyd y Grug yn cynyddu er mwyn caniatáu i Ysgol Santes Tudful ddarparu ar gyfer cynnydd mewn disgyblion a ragwelir yng ngogledd y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg yn gwerthuso'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg drafft a'r canlyniadau dros y tair blynedd nesaf.

#### **Beth yw rôl y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg o fewn y prosesau hynny?**

Mae'r Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg yn monitro'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) sy'n rhoi manylion am sut bydd yr awdurdod yn cyflawni'r targedau cenedlaethol a amlinellwyd yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (WMES). Amcanion y grŵp yw asesu cynnydd yn erbyn y targedau o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac i sicrhau bod y Cynllun yn:

- adlewyrchu nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (WMES);
- dangos cynnydd clir tuag at gyflawni'r targedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg;
- dangos atebolrwydd ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg.

Aelodau'r Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg yw: Cynghorydd yr awdurdod lleol (Cymraeg); Prif Swyddog Addysg; Rheolwr Busnes Addysg; Rheolwr Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i'r Teulu; Penaethiaid ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg; Pennaeth ysgol uwchradd fwydo cyfrwng Cymraeg; Pennaeth ysgol cynradd cyfrwng Saesneg; Cynrychiolydd o Fenter Iaith; Cynrychiolydd o Urdd Gobaith Cymru; Cynrychiolydd o RhAG; Cynrychiolaeth o Fudiad Meithrin; Cynrychiolydd o'r Bwrdd Partneriaeth; Cynrychiolydd o Gonsortium Canolbarth y De; Cynrychiolydd o Adran Amrywiaeth ALI; Cynrychiolwyr cyff llywodraethu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob tymor.

#### Camau Pellach a Gymerwyd

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu i edrych ar ffyrdd o wella cynnwys yr arolwg ac i sicrhau ei fod yn cyrraedd cynulleidfia ehangach.

#### Camau a Gylluniwyd

Parhau i weithio ag asiantaethau partner e.e.y Blynyddoedd Cynnar ac lechyd i ddatblygu deunydd hyrwyddo i godi proffil dwyieithrwydd.

---

#### **Ymgynghori â rhanddeiliaid wrth baratoi'r Cynllun hwn WESP**

##### Y Sefyllfa Bresennol

Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses ymgynghori. Mae'r ddogfen ddrafft wedi'i dosbarthu at lywodraethwyr ysgolion ac ysgolion. Gofynnwyd i ysgolion rannu'r cynllun gyda'u disgyblion. Mae'r Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg hefyd wedi ystyried a rhoi sylwadau ar y cynllun drafft.

Mae'r ymgynghoriad wedi cael ei ymestyn i ymgynghoreion statudol a nodir yn *Adran 84 Deddf Safonau Ysgolion a Threfniadaeth (Cymru) 2013*, ac ymgynghoreion eraill a argymhellwyd o fewn *Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Rheoliadau Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013*.

##### Camau a Gynlluniwyd

Bydd y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg yn parhau i gyfarfod i asesu cynnydd yn erbyn targedau cenedlaethol a'r rhai o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i sicrhau bod y ddogfen yn parhau i fod yn ddiweddar ac yn berthnasol.

---

#### **Beth yw'r cysylltiad rhwng y prosesau hyn a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc?**

##### Y Sefyllfa Bresennol

Y weledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful, fel y nodwyd yn y *Cynllun Integredig Unigol 2013-17*, yw sicrhau bod:

*"Pobl ym Merthyr Tudful yn cael y cyfle a'r dyhead i ddysgu a datblygu eu sgiliau i wneud y gorau o'u potensial".*

Mae cynrychiolaeth o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg bob amser wedi'u sicrhau yn y Gynhadledd Myfyrwyr blynyddol i sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei glywed, fel y gall ddylanwadu ar waith cynllunio. Mae ymgysylltu â disgyblion yn allweddol i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac, felly, mae is-grŵp o Fwrdd Diogelu Cwm Taf wedi'i sefydlu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n effeithio arnynt ac yn gallu dweud eu dweud.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd y Gwasanaeth Addysg yn parhau i flaenoriaethu'r blaenoriaethau strategol y cytunir arnynt ar gyfer newid sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc o bob oed, i wella:

- cyrhaeddiad, cymwysterau a sgiliau bywyd;
- cynhwysiant cymdeithasol plant a phobl ifanc anabl a'u rhieni;
- iechyd emosïynol a meddyliol plant a phobl ifanc;
- diogelwch a lles y plant a phobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed;
- iechyd a lles pob plentyn a pherson ifanc, yn enwedig iechyd rhywiol pobl ifanc;
- mwynhad, dysgu a sgiliau cymdeithasol plant a phobl ifanc a chynyddu ymarfer corff drwy chwarae hunangyfeirio a gweithgareddau hamdden;
- dylanwad plant, pobl ifanc a'u rhieni dros y gwasanaethau a ddarparwyd a gwasanaethau eraill sydd wedi'u cynllunio ar eu cyfer; a
- mynediad i dai a chymorth ar gyfer pobl ifanc ddi-gartref.

Mae'r Cyngor a phartneriaid wedi gwneud ymrwymiad i feithrin dwyieithrwydd ac edrych am ffyrdd newydd i hyrwyddo'r Gymraeg ac i sicrhau pan fydd teuluoedd a phobl ifanc yn dymuno cael gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg y gallant wneud hynny.

---

### ***Sut ydych chi'n bwriadu i'r cynlluniau/dogfennau addysg strategol yr awdurdod adlewyrchu nodau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg?***

#### Y Sefyllfa Bresennol

Mae cydlyniant cryf rhwng cynlluniau strategol o fewn y gwasanaeth ac ar draws yr awdurdod i sicrhau bod targedau strategol yn adlewyrchu nodau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, er enghraifft Strategaeth Iaith Gymraeg CBSMT; Strategaeth Llesiant Ffocysu ar y Dyfodol; Asesiad Digionedd Gofal Plant; Strategaeth Codi Safonau, Strategaeth Llesiant, Cynllun Trefniadaeth Ysgolion a Pholisi Mynediad.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd y cydlyniant hwn yn cael ei gynnal ar draws cynlluniau strategol yr awdurdod i sicrhau cysondeb darparu a chanlyniadau ac arfer da.

---

### **1.7 Darparu gwybodaeth i rieni/ gofalwyr**

#### ***Sut ydych chi'n darparu gwybodaeth i rieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen/CA2/CA3/CA4? Sut ydych chi'n darparu gwybodaeth i rieni am natur ieithyddol darpariaeth a chymhwysedd ieithyddol tebygol yn Gymraeg a Saesneg o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon?***

#### Y Sefyllfa Bresennol

Darperir gwybodaeth i rieni ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:

- Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) yn darparu gwybodaeth ddi-dduedd gywir i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc 0-19 oed. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am faterion fel; blynyddoedd cynnar, gofal plant, iechyd, hamdden, ieuencid, chwaraeon, dyled, cyffuriau ac alcohol.
- Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth gyffredinol i rieni/gofalwyr ar y Cyfnod Sylfaen ac ysgolion o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin a Swyddogion Twf i helpu i godi ymwybyddiaeth o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
- Anogir ysgolion i ddarparu gwybodaeth drwy eu gwefannau eu hunain.

Un o'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant oedd gwella hyrwyddiad ac argaeledd dewisiadau yn y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r flaenoriaeth hon wedi'i hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu.

#### Camau a Gynlluniwyd

- Bydd yr awdurdod yn parhau i ddarparu gwybodaeth ddiweddar i rieni ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd rhieni yn parhau i gael gwybodaeth am bob ysgol, gan gynnwys drwy wefan yr awdurdod [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk). Bydd gwybodaeth am berfformiad ysgolion yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr awdurdod.
- Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn edrych ar ffyrdd y gall gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithrwydd yn gyffredinol gael ei rhannu â chynulleidfa ehangach h.y. drwy weithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o'r holl opsiynau cyn iddynt wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch meithrinfa neu ysgol.

#### ***Ydych chi'n cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth sy'n agos at eich awdurdod lleol ond wedi lleoli mewn awdurdod lleol cyfagos?***

Darperir gwybodaeth ynghylch addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i rieni fel rhan o'r broses o dderbyn i ysgolion. Mae gan ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod gysylltiadau agos ag Ysgol Rhydywaun yn enwedig ynghylch datblygu'r cwricwlwm a phontio.

#### **Canlyniad 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd.**

Gwnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion (98%) mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (62 allan o 63 disgybl) drosglwyddo i addysg ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ym mis Medi 2016 (**Atodiad 2**).

Trosglwyddodd 86 o ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn 2017; rhagwelir y bydd 78 yn trosglwyddo yn 2018 ac 86 yn 2019.

#### Cymraeg Iaith Gyntaf

Mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg fel iaith gyntaf fel a ganlyn:

##### CA3

Yn 2014, llwyddodd 90.02% o ddisgyblion yn RCT lefel 5 neu uwch o gymharu â 91.6% ar draws Consortiwm Canolbarth y De a 90.07% ledled Cymru.

Yn 2015, llwyddodd 92.5% o ddisgyblion yn RCT lefel 5 neu uwch o gymharu â 90.09% ledled Cymru. Daeth yn 11 yng Nghymru.

##### CA4

Yn 2014, dengys data bod 70.02% o ddisgyblion a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU wedi llwyddo i gael graddau A\*-C o gymharu â 73% ledled Cymru.

Ar gyfer 2015, dengys data dros dro nad oes newid.

Gwnaeth 78% o ddisgyblion a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg Llenyddiaeth TGAU lwyddo i gael A\*-C yn RCT o gymharu â 75% ledled Cymru.

##### CA5

Mae nifer y disgyblion sy'n sefyll Cymraeg iaith Gyntaf yn gymharol fach – yn 2014 dim ond 22 a gofrestrodd. Mae'r canran a llwyddodd i gael A\*-C yn amrywio ond ar gyfer 2014 roedd yn 50% o gymharu â 81% yn

genedlaethol.

### Cymraeg Ail Iaith

Mae perfformiad disgyblion mewn Cymraeg Ail Iaith fel a ganlyn:

#### CA3

Gwnaeth 74.8% o ddisgyblion yn RCT lwyddo i gael y lefel ddisgwyliedig neu'n uwch mewn Cymraeg Ail Iaith o gymharu â 70.84% ar draws Consortiwm Canolbarth y De a 77.8% ledled Cymru.

#### CA4 (ffigurau dros dro)

Gwnaeth 71.9% o ddisgyblion wnaeth sefyll Cymraeg Ail Iaith cwrs llawn lwyddo i gael gradd A\*-C.

Gwnaeth 46.99% o ddisgyblion wnaeth sefyll Cymraeg Ail Iaith cwrs byr lwyddo i gael gradd A\*-C.

#### CA5

Gwnaeth 33 o ddisgyblion sefyll Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith gyda 64% yn llwyddo i gael A\*-C.

Ysgol	2015		2016		2017	
	Nifer o ddisgyblion BI9 yn 2015	Nifer gafodd fynediad i'r cwrs llawn	Nifer o ddisgyblion BI9	Nifer gafodd fynediad i'r cwrs llawn	Nifer o ddisgyblion Blwyddyn 9	Nifer gafodd fynediad i'r cwrs llawn
Afon Taf	116	36 (Pwnc Dewisol) Safodd 44 disgybl gymhwyster NVQ	147	85/149 (Cwrs Llawn) Safodd 56 disgybl gymhwyster NVQ	132	87/115 (Cwrs Llawn) Safodd 27 disgybl gymhwyster NVQ
Esgob Bishop	92	14	102	15	96	96
Uwchradd Cyfarthfa	236	63	221	51	221	205
Pen Y Dre	100	3	110	29	113	12

Mae pob un o'r pedair ysgol uwchradd yn targedu 80% o'u disgyblion Blwyddyn 9 ar gyfer cwrs llawn Cymraeg TGAU.

### Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r cyfraddau dilyniant rhwng lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir i blant o dan 2 oed ac ysgolion cyfrwng Cymraeg a gynhelir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen fel a ganlyn:

	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15
Cyfraddau dilyniant	53%	54%	63%	58.89%	59.74%

Mae'r data yn **Atodiad 2** yn dangos bod ffigurau trosglwyddo is gan Gylchoedd Meithrin Cefn-coed a Thwyn Carmel. Fodd bynnag, bu cynnydd yn y niferoedd sy'n trosglwyddo o Gefn-coed. Mae Twyn Carmel yn derbyn nifer o blant Dechrau'n Deg.

Mae'r awdurdod wedi ymchwilio i'r uchafswm pellter y byddai'n rhaid i ddisgyblion cynradd deithio i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg agosaf sydd o dan 10 milltir. Mae hyn o fewn canllawiau teithio Llywodraeth Cymru i ddisgyblion oed cynradd ac ni chredir ei fod yn ddylanwad mawr ym mhenderfyniad rhieni wrth ddewis addysg cyfrwng Cymraeg. Mae dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod ac mae un yn cynnig lleoedd meithrin llawn amser ac mae'r llall â phartneriaeth lwyddiannus gyda lleoliad nas cynhelir i ddarparu lleoedd rhan amser. Mae'r awdurdod yn ystyried y byddai'r trefniadau hyn yn helpu rhieni sydd am anfon eu plentyn i addysg cyfrwng Cymraeg.



Mae'r awdurdod yn parhau i gynnal cyfraddau trosglwyddo effeithiol rhwng darpariaeth a gynhelir ar gyfer grwpiau oed gwahanol. Gwnaeth pob disgybl mewn darpariaeth feithrin a gynhelir cyfrwng Cymraeg drosglwyddo i'r Derbyn mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2016. Gwnaeth pob disgybl a drosglwyddwyd i Gyfnod Allweddol 2 ym mis Medi 2016.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yr awdurdod a'r Mudiad Meithrin yn gweithio'n agos i wella trefniadau trosglwyddo.

***Beth yw'r sefyllfa ynghylch y gyfran o'r cwricwlwm sy'n cynnig addysgu pynciau cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion cyfrwng Cymraeg? Sut ydych chi'n monitro sefyllfa ysgolion unigol ynghylch cyfran addysgu cyfrwng Cymraeg? Beth yw'ch cynlluniau i gynyddu cyfran addysgu cyfrwng Cymraeg o fewn ysgolion penodol yn y Cyfnod Sylfaen/CA2/CA3?***

#### Y Sefyllfa Bresennol

Addysgir y cwricwlwm cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod. Caiff ysgolion eu monitro a byddant yn cael cymorth a her briodol drwy swyddog gwella ysgolion yr awdurdod a Chydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De.

#### Amcanion

- Gweithio gyda RCT i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn Gymraeg (laith Gyntaf)
- Bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yr awdurdod a'r Mudiad Meithrin yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i wella trefniadau pontio.
- Codi proffil addysg cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu pontio mwy effeithiol rhwng y ddarpariaeth nas cynhelir a ariennir i ddarpariaeth ysgolion a gynhelir, rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 a Chyfnod Allweddol 3 a 4.

### **Canlyniad 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Mae cynyddu canran y dysgwyr 14-16 oed sy'n astudio am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenoriaeth. Y targed ar gyfer 2017/18 yw bod 100% o ddisgyblion sy'n cael mynediad i'r cymwysterau hyn yn llwyddo ynddynt.

Blwydd yn	Cofres tru WFL	Nifer sy'n astudio 5+ pellach cymwysterau cyfrwng Cymraeg L1 neu L2	% sy'n astudio 5+ pellach cymwysterau cyfrwng Cymraeg L1 neu L2
2015/16	160	158	98.75
2016/17	153	153	100
2017/18	134	134	100

Blwydd yn	Cofres tru WFL	Nifer sy'n astudio 2+ pellach cymwysterau cyfrwng Cymraeg L1 neu L2	% sy'n astudio 2+ pellach cymwysterau cyfrwng Cymraeg L1 neu L2
2015/16	160	160	100
2016/17	154	154	100
2017/18	134	134	100

Mae nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn RCT o Ferthyr Tudful fel a ganlyn:

Haf	2014	2015	2016 amcan	2017 amcan	2018 amcan	2019 amcan
Nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo	61	62	63	86	78	86
Cyfanswm y disgyblion yn yr ysgol	989	979	1018	1020	1062	1092
Nifer y disgyblion yng Nghyngor Merthyr	383	365	424	443	459	484

Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf mae'r holl ddysgwyr yn astudio ar gyfer pum cymhwyster neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg (100%). Yn 2010, mae nifer y dysgwyr yn cynrychioli 19% o'r garfan yn y sir ond mae wedi codi i 20% yn 2011. Gwnaeth 19.7% o garfan gyfan Blwyddyn 11 astudio 5 cymhwyster neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2012. Ym mis Ionawr 2015, gwnaeth 15.2% (399 disgybl o garfan o 2628) o garfan Blwyddyn 11 astudio 5 cymhwyster neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae RCT wedi profi dirywiad araf yn nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg er gwaethaf sawl datblygiad i'r cwricwlwm sydd ar gynnig. Mae atyniad y cyfleuster nwydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi effeithio ar y niferoedd a dim ond 17% o garfan RCT sydd bellach yn dilyn cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gweithio gydag ysgolion/consortia i wella cyfleoedd cwricwlwm a bydd yn parhau i helpu i ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol i ddiwallu anghenion cwricwlwm 14-19.

Mae pob ysgol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol RCT yn cydymffurfio â'r Mesur Dysgu a Sgiliau (2009). Gwnaeth yr ysgolion cyfrwng Cymraeg fodloni'r gofynion yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r holl ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cydweithio fel consortiwm/Cyfleoedd. Maent yn rhannu cyrsiau, gan gynnwys colegau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Coleg y Cymoedd a Merthyr Tudful ar gyfer cyrsiau galwedigaethol fel adeiladu, partneriaid dysgu seiliedig mewn gwaith a darparwyr allanol sy'n darparu cyrsiau yn y Gyfraith, Dawns a CACHE. Caiff y ddarpariaeth hon ei monitro drwy'r consortiwm a Gyrfa Cymru.

Mae mwyafrif y ddarpariaeth wedi'i chefnogi drwy ariannu ysgolion craidd ond caiff ei ddatblygu drwy'r Cynllun Datblygu Rhwydwaith Blynyddol (ANDP) a grant dwyieithog.

Gallai dyfodol grantiau aneglur a lleihad mewn grantiau effeithio'n andwyol ar lefel bresennol y ddarpariaeth

- Mae hyfforddiant ar waith ac mae consortiwm Cymru yn datblygu o dan y cadeirydd newydd.
- Mae cynaliadwyedd cyrsiau a digwyddiadau ar y cyd yn bryder mawr. Mae rhai yn cael eu cynnwys yn yr ysgolion ond mae rhai eraill mewn perygl os bydd y grantiau yn lleihau neu'n diflannu.
- Mae'r holl ysgolion bellach yn rhagori ar y mesur gan ddarparu mwy o gyfle nag o'r blaen.

**Canlyniad 4: Mwy o ddysgwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith.**

Cynyddu canran y dysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion.

Blwyddyn	Carfan Disgyblion 17 oed	Nifer sy'n astudio 2+ cymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg	% sy'n astudio 2+ cymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg
2015/16	93	74	79.56
2016/17	85	70	82.35

#### 4.1 Cynyddu'r canran o ddysgwyr 16-19 oed sy'n astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion.

Bu'r coleg yn cael trafferth recriwtio yn y gorffennol ar gyfer cwrs AS/A2 ond maen nhw'n awyddus i gadw hyn i fynd. Ar hyn o bryd, mae 14 o ddisgyblion wedi gwneud cais ar gyfer Medi 2017. Maen nhw wedi penodi Hyrwyddwr Dwyieithog a chynnig Hyfforddiant Adnewyddu i ddisgyblion. Eu gobaith yw y bydd y cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n cymryd y cwrs llawn Cymraeg yn y dyfodol yn arwain at gynnydd cyfatebol yn y ceisiadau AS/A2.

#### 4.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a RCT yn gweithio fel partneriaid yn y rhwydwaith cyfrwng Cymraeg a'r consortiwm i wella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae cydweithio wedi'i sefydlu'n dda yn yr ardal ac mae buddion dewis ac effeithlonrwydd wedi eu deall a'u mwynhau gan bawb. Mae cydweithio hefyd yn cefnogi'r ANDP sy'n cael ei weinyddu drwy'r Awdurdodau. Fodd bynnag, dylid edrych ar gyfleoedd pellach ar gyfer cydweithio drwy'r Consortiwm.

#### 4.3 Casglu dadansoddi a defnyddio data ar gyfer darpariaeth Cyfrwng Cymraeg 14-19 oed. Cynllunio ar gyfer darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Ôl -16 oddi fewn i bartneriaethau.

Caiff dewis ac angen disgyblion eu casglu gan ysgolion sy'n defnyddio holiaduron a gwybodaeth o arolygon gyrfaoedd a llais dysgwyr. Mae'r wybodaeth hon yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol mewn ysgolion gan y grŵp consortiwm a chytuno arno gyda'r awdurdod ym mis Tachwedd a Mawrth, yn unol â pholisi cynllunio Llywodraeth Cymru. Mae angen ystyried unrhyw ddarpariaeth newydd o fewn y consortiwm, ynghyd â Gwybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) a gwybodaeth am leoliadau a, lle y bo'n briodol, sefydlir partneriaethau â Choleg y Cymoedd, Coleg Pen-y-bont, Coleg Merthyr a Phartneriaid Dysgu Seiliedig ar Waith (WBLP). Rhoddir cytundebau lefel gwasanaeth (SLAs) ar waith i sicrhau bod ansawdd yn cael ei fonitro gan ysgolion. Mae'r system wrthi'n newid ar hyn o bryd gyda Gyrfa Cymru yn newid eu rôl a Llywodraeth Cymru yn gwella systemau Gwybodaeth am y Farchnad Lafur. Her – protocol rhannu gwybodaeth, dibynadwyedd Gwybodaeth am y Farchnad Lafur.

### Canlyniad 5: Mwy o ddysgwyr gyda sgiliau uwch yn y Gymraeg

#### 5.1 Sut ydych chi'n bwriadu gwella safonau llythrennedd yn y Gymraeg? (Gweler Atodiad 4 am y data)

##### Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r nod o godi safonau llythrennedd ar draws ysgolion ac mae gan ysgolion y nodau canlynol:

- Mabwysiadu dull â ffocws ar gyfer hyfforddiant llythrennedd a rhifedd i bob ymarferydd;
- Darparu cymorth ymyrraeth wedi'i dargedu i ddisgyblion 7-14 oed sydd yn tangyflawni mewn darllen ac ysgrifennu;
- Cau'r bwlch rhwng y rhywiau;
- Ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned ehangach a thargedu adnoddau i fynd i'r afael ag anafteision economaidd gymdeithasol sy'n rhwystr i godi safonau.

Yn ogystal â'r adnoddau a'r hyfforddiant drwy gyfrwng y Saesneg mae pob ysgol cyfrwng Cymraeg wedi cael y system ffonig Tric a Chlic. Ceir cymorth ychwanegol i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gan yr awdurdod lleol, Arweinwyr System Cydwasanaeth Addysg Cymru a Swyddogion Cymraeg mewn Addysg.

Mae canlyniadau y profion llythrennedd a gynhaliwyd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn:

Profion Llythrennedd	Cyngor Merthyr 2013/14	Cyngor Merthyr 2014/15	Cyngor Merthyr 2015/16
<b>Disgyblion Blwyddyn 2 – canran sy'n cael sgôr safonol o 85 neu uwch</b>	73.0%	76.0%	93.8%
<b>Disgyblion Blwyddyn 3 – canran sy'n cael sgôr safonol o 85 neu uwch</b>	70.0%	93.8%	73.9%
<b>Disgyblion Blwyddyn 4 – canran sy'n cael sgôr safonol o 85 neu uwch</b>	63.0%	95.3%	87.7%
<b>Disgyblion Blwyddyn 5 – canran sy'n cael sgôr safonol o 85 neu uwch</b>	78.0%	70.1%	85.1%
<b>Disgyblion Blwyddyn 6 – canran sy'n cael sgôr safonol o 85 neu uwch</b>	58.0%	83.9%	86.6%

#### Camau a Gynlluniwyd

Parhau i:

- fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd darpariaeth, drwy ddadansoddi adroddiadau arolygu Estyn a gwybodaeth a gafwyd o'r rhaglen Adolygu a Datblygu Awdurdod Lleol a Swyddogion Allweddol;
- darparu mynediad i raglen hyfforddi gynhwysfawr i ddatblygu sgiliau staff ac ymateb i unrhyw fentrau a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu sgiliau llythrennedd;
- darparu cymorth i deuluoedd drwy weithdai i rieni ar gyfer llythrennedd a rhifedd; a
- darparu cymorth ychwanegol i ysgolion drwy Arweinwyr System Cymru a Swyddogion Cymraeg mewn Addysg.

## 5.2 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf

### Y Sefyllfa Bresennol

Mae canran y dysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen sy'n cyflawni o leiaf Canlyniad 5 yn y Cyfnod Sylfaen mewn iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn:

	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Cyngor Merthyr	95.80%	87.90%	88.50%	92.50%	92.10%	95.1%
Cymru	90.90%	85.90%	86.70%	89.80%	91.30%	90.7%

Nodir canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 4 mewn asesiadau athrawon yn Gymraeg yn y tabl isod. Ar gyfer y tair blynedd diwethaf bu cynnydd parhaus mewn cyrhaeddiad disgyblion ac maent yn gyson yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Caiff y canlyniadau hyn eu monitro'n flynyddol gan gynghorydd cyswllt ysgolion unigol a chynghorwyr Cymraeg.

Cyfnod Allweddol 2	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Cyngor Merthyr	86.8%	87.7%	85.4%	96.9%	93.5%	95.5%
Cymru	82.0%	84.0%	86.7%	88.1%	90.5%	90.8%

### Camau a Gynlluniwyd

Bydd Arweinwyr System Cymru, Swyddogion Cymraeg mewn Addysg sy'n gyfrifol am Gymraeg Iaith Gyntaf,

gyda chymorth y Cydwasanaeth Addysg, yn parhau i weithio gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod ac Ysgol Gyfun Rhydywaun i helpu i godi safonau mewn Cymraeg a llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Bydd ysgolion, drwy Wasanaeth Gwella Ysgolion yr Awdurdod Lleol, yn parhau i gael lefelau priodol o her a chymorth i godi cyrhaeddiad.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd darpariaeth drwy: ddadansoddi data ysgolion; data cymharu; adroddiadau arolygu Estyn; adolygiadau ysgolion gydag arweinwyr tîm, a gwybodaeth a gafwyd gan y Cydwasanaeth Addysg a Chonsortiw Canolbarth y De. Mae gwella canlyniadau Cymraeg iaith Gyntaf ar draws y rhanbarth yn darged penodol gan y consortiw.

Y blaenoriaethau rhanbarthol yn y maes hwn, yn arbennig ar gyfer ysgolion a ddynodwyd yn goch neu'n oren o dan y system categorieiddio cenedlaethol yw:

- ansawdd addysgu
- llythrennedd, rhifedd a phresenoldeb (gweler manylion y rhaglenni o dan 5.1)
- hunanwerthuso/cynllunio gwella
- arweinyddiaeth

Gwneir hyn drwy ddatblygu rhaglenni fel [Rhaglen Gwella Athrawon](#) Ysgol Bro Morgannwg

Mae rhaglenni arwain ar gyfer darpar bennaethiaid a phenaethiaid profiadol wedi cael eu datblygu. Datblygwyd y rhain i ddechrau yn Saesneg mewn cysylltiad â'r Sefydliad Addysg yn Llundain. Mae'r consortiw bellach yn edrych ar ddatblygu rhaglen heriol debyg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai ymarferwyr Cymraeg wedi mynychu darpariaeth y Sefydliad Addysg.

Mae Consortiw Canolbarth y De hefyd yn cefnogi ffederasiwn sydd newydd ei sefydlu o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (sy'n cynnwys yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws pum awdurdod) a'r rhwydwaith o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Bydd y rhain yn gweithio i nodi anghenion cymorth y sector a chomisiynu hybiau/modelau cymorth eraill Her Canolbarth De Cymru i gyflawni'r cymorth sydd ei angen. Mae nifer o'r ysgolion eisoes yn ysgolion hyb sy'n cynnig rhaglenni dan arweiniad ymarferwyr o hyfforddiant a chymorth i ysgolion eraill yn y rhanbarth.

Yn ogystal, mae dau Swyddog Cymraeg mewn Addysg sydd yn rhan o'r consortiw yn gweithio gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg; Cynghorydd Cymraeg sy'n Gymwys am Oes (athro ysgol uwchradd) mewn sefyllfa i weithio gyda'r sector uwchradd cyfrwng Cymraeg i gynnig cymorth ar gyfer manylebau newydd TGAU ar gyfer Cymraeg iaith Gyntaf a llythrennedd.

Mae Consortiw Canolbarth y De wrthi'n dadansoddi'r canlyniadau/data diweddaraf a bydd yn ystyried targedau rhanbarthol ac unigol yr awdurdod lleol yn sgil y sefyllfa bresennol. Mae'r consortiw a'i awdurdodau lleol yn hyderus bod yr holl dargedau ar gyfer y cyfnod sydd yn dod yn gadarn ond yn heriol. Cânt eu hystyried dros yr wythnosau i ddod a'u cyfleu i bartneriaid ar ddechrau mis Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu i bartneriaid ddadansoddi'r targedau a herio unrhyw dargedau nad ydynt yn ymddangos yn ddigon heriol ar lefel yr Awdurdod Lleol/Consortiw.

### **5.3 Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth**

#### Y Sefyllfa Bresennol

Mae pob ysgol yng Nghonsortiw Canolbarth y De yn rhan o Grwpiau Gwella Ysgolion (SIGs). Mae'r Grwpiau Gwella Ysgolion yn nodi meysydd ar gyfer datblygu ar gyfer grwpiau o ysgolion ac yn cynnig neu'n comisiynu'r cymorth angenrheidiol er mwyn gwella.

Bydd y meysydd gwella hyn yn cynnwys Cymraeg ail iaith lle mae'r ysgolion yn cytuno bod hyn yn faes datblygu. Yna bydd y Grwpiau Gwella Ysgolion yn comisiynu'r cymorth o'r hybiau gwella a chanolfannau arbenigol o fewn Consortiw Canolbarth y De. Mae'r hybiau gwella hyn yn ysgolion Consortiw Canolbarth y De lle nodwyd ymarfer da/ymarferwyr da yn y maes gofynnol.

Yr hybiau Cymraeg ail iaith yw:

Ysgol Uwchradd Caerdydd (Caerdydd),  
Ysgol Gyfun Treorci (RCT)  
Ysgol Gyfun y Bont-faen (Bro Morgannwg)  
Maent yn cynnig rhaglen helaeth o ddigwyddiadau wedi'u hanelu at ymarferwyr Cymraeg ail iaith mewn ysgolion uwchradd.

Mae'r rhain yn rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon a dysgwyr ar draws y system. Ar hyn o bryd, maent yn cynnig cymorth i ysgolion eraill sydd wedi'u hanelu at gryfhau addysgu a dysgu, ac arfer arweinyddiaeth. Mae eu rhaglenni wedi'u cynllunio i ymateb i anghenion ymarferwyr/ysgolion.

Mae enghreifftiau o raglenni mewn ysgolion sydd ar gynnig yn benodol ar gyfer Cymraeg ail iaith yn cynnwys:

[Asesiad ar gyfer Dysgu mewn Gwers Cymraeg Ail iaith](#)

[Datblygu Darllen yn CA3](#)

[Arfer Arweiniol Sector mewn Cymraeg Ail iaith](#)

[Herio'r Disgyblion Mwy Galluog a Thalentog \(Cymraeg Ail iaith\)](#)

[Sgiliau Digidol mewn Ystafell Ddosbarth Cymraeg Ail iaith](#)

[Datblygu Llythrennedd Ddigidol mewn Cymraeg Ail iaith](#)

[Methodoleg Addysgu Cymraeg Ail iaith](#)

Yn ogystal, mae wyth swyddog Cymraeg mewn Addysg yn parhau i weithio o fewn y consortiwm: mae lefel y cymorth a ddarperir i ysgolion yn amrywio yn ôl angen yr ysgol.

Mae swyddogion Cymraeg mewn Addysg yn categoreiddio ysgolion cynradd drwy RAG Cymraeg ail iaith. Mae ysgolion sydd wedi eu categoreiddio yn wyrdd neu'n felyn yn parhau i gael cymorth ond caiff cydlynwyr Cymraeg ail iaith eu hannog i gynnal Aseidiadau Gwrando ar Ddysgwyr, teithiau dysgu ac archwiliadau Helpwr Heddiw yn annibynnol. Mae swyddogion Cymraeg mewn Addysg wedi creu taflenni asesu sy'n cynnwys canllawiau y gellir eu defnyddio i wneud dyfarniadau a chynllunio'r ffordd ymlaen. Ysgolion sydd wedi eu gosod mewn categorïau oren neu goch yw'r ysgolion hynny lle mae ymyrraeth ystafell ddosbarth yn briodol oherwydd angen gwella safonau mewn rhai meysydd.

Mae gwefan Cymraeg ail iaith ([www.cscjes.org.uk](http://www.cscjes.org.uk)) yn cynnwys consortiwm iaith, cynllun gwaith ac adnoddau cysylltiedig eraill. Mae hefyd sianel YouTube newydd ei sefydlu (Cydwasaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De Cymraeg mewn Addysg) sy'n cynnwys caneuon, llyfrau darllen yn uchel a phortffolio ar-lein o lefaredd gwahanol lefelau a chlipiau darllen.

Gwahoddwyd pob ysgol gynradd i fynychu sesiynau canolog i gyflwyno'r cynllun gwaith newydd a gwefan. Mae sesiynau wedi eu cynnal mewn ysgolion unigol ar gais.

Mae'r tîm swyddogion Cymraeg mewn Addysg hefyd wedi creu pecyn darllen newydd i helpu ysgolion i godi safonau darllen. Mae sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnig mewn cyfarfodydd staff, cyfarfodydd clwstwr a hefyd fel un o'r digwyddiadau canolog.

Mae Consortiwm Canolbarth y De wrthi'n dadansoddi'r canlyniadau/data diweddaraf a bydd yn ystyried targedau awdurdod lleol rhanbarthol ac unigol yn sgil y sefyllfa bresennol. Mae'r consortiwm a'i awdurdodau lleol yn benderfynol bod y targedau ar gyfer y cyfnod i ddod yn gadarn ond yn heriol. Cânt eu hystyried dros yr wythnosau i ddod a'u cyfleu i bartneriaid ar ddechrau mis Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu i bartneriaid ddadansoddi'r targedau a herio unrhyw dargedau nad ydynt yn ymddangos yn ddigon heriol ar lefel yr ALI/Consortiwm.

Mae pob ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol i gefnogi cyfleoedd i ehangu defnydd o'r Gymraeg. Cynigir y gweithgareddau hyn yn yr ysgol ac fel gweithgareddau gyda'r hwyr ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae nifer o'r ysgolion yn gweithio'n agos gydag Urdd Gobaith Cymru er mwyn gwella eu hamrywiaeth o weithgareddau. Mae Urdd Gobaith Cymru wrthi'n gweithio gyda 17 o ysgolion ar draws Merthyr. Mae'r Urdd wrthi'n datblygu prosiect ail iaith gydag Ysgol Uwchradd Pen-y-dre fel rhan o gynllun cenedlaethol gyda phobl ifanc sy'n dysgu Cymraeg.

Mae pob ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynnig cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau preswyl. Maent yn gyfle gwych i ymarfer y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

## Camau a Gynlluniwyd

Bydd yr Ymgynghorwyr Her Cyfrwng Cymraeg a'r Swyddogion Iaith Gymraeg mewn Addysg sy'n gyfrifol am Gymraeg iaith Gyntaf, gyda chymorth y Cydwasanaeth Addysg, yn parhau i weithio gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod i geisio codi safonau mewn Cymraeg a llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau i barhau i gefnogi amrywiaeth o ddarparwyr a mentrau er mwyn datblygu'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Gweithredu a gafwyd ac sydd i'w wneud gan yr ALI:

- Prentis yr Urdd – Mae CBSMT wedi cyd-ariannu Prentis gyda'r Urdd i helpu i ddarparu gweithgareddau cymunedol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar, ond heb ei gyfyngu i, chwaraeon. Mae cyflwyno prentis yr Urdd i Dîm Heini Merthyr wedi cryfhau cyswllt y tîm â'r ddwy ysgol gynradd Cyfrwng Cymraeg gan fod Heini Merthyr yn cefnogi cyfleoedd sy'n gallu cael eu cynnig yn ddwyieithog bellach. Mae'r ddwy ysgol wedi ymgysylltu â sesiynau chwaraeon newydd. Caiff chwaraeon ei ddefnyddio fel cerbyd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Y nod yw y byddai'r sgiliau ieithyddol hyn yn cael eu datblygu ymhellach mewn ysgol uwchradd.
- Prosiect y Sector Breifat – Yn ystod y gwanwyn 2018, nod yr ALI fydd arwain menter hyrwyddo i'r Sector Breifat yn y Fwrdeistref Sirol. Wrth weithio â phartneriaid, bydd yr ALI yn dosbarthu nwyddau Cymraeg Gwaith, yn ogystal â gwybodaeth berthnasol i fanteision y Gymraeg yn y gweithle.
- Er mwyn datblygu cyfleoedd Profiad Gwaith ac interniaeth gyda'r ysgolion uwchradd, addysg uwch a phellach, yn ogystal â thrwy'r gwasanaeth gofawyr a lleoliad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r ALI eisoes wedi dechrau'r gwaith hwn yn ystod Haf 2017, ac mae'r cyntaf i gael interniaeth eisoes wedi cael ei ddynodi ar gyfer lleoliad posibl o Brifysgol Aberystwyth i'r tîm Adfywio Economaidd.

## **5.4 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail iaith**

Mae canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n llwyddo i gael trothwy Lefel 2 mewn TGAU Cymraeg Ail iaith Cwrs Byr wedi'i nodi yn y tabl isod:

	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Cyngor Merthyr	48.2%	47.4%	57.6%	45.6%	51.1%	48.9%
Cymru	47%%	50%	50%	52.3%	50.9%	Amh

## Y Sefyllfa Bresennol

Canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni o leiaf Lefel 4 yn asesiad athrawon Cymraeg Ail iaith:

	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+	34.2%	52.5%	58.2%	64.0%	68%	74.6%
Cymru	51.4%	61.6%	67.7%	73.1%	76.1%	77.9%

Mae hyn yn adlewyrchu mwy o hyder yng ngallu athrawon i fonitro a herio cynnydd disgyblion mewn Cymraeg ail iaith.

Mae pob clwstwr ysgol uwchradd wedi cael eu monitro yn haf 2013 gan y Cynghorydd Cymraeg. Mae rhaglen o gymorth gan Arweinwr System Cymraeg y Consortiwm a'r Swyddog Cymraeg mewn Addysg ar waith ar gyfer 2013-14. Mae tystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu gwelliant mewn arfer da ar draws y rhan fwyaf o ysgolion ac ymwybyddiaeth sy'n datblygu o bwysigrwydd cynllunio iaith.

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 mae canran y dysgwyr sy'n cyrraedd o leiaf Lefel 5 yn asesiad athrawon Cymraeg Ail iaith yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol a chaiff hyn ei fonitro'n agos gan gynghorydd Cymraeg a chaiff ysgolion eu herio i godi safonau ymhellach fel rhan o weithdrefnau cefnogi a monitro yr Awdurdod Lleol.

Lefel 5+	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Cyngor Merthyr	51.6%	62.4%	69.9%	78.6%	84.4%	85.6%
Cymru	64.6%	68.2%	73.3%	77.8%	81.2%	81.9

Mae canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn wedi'i nodi yn y tabl isod:

	2011	2012	2013	2014	2015	2016 (targed)
Cyngor Merthyr	83%	91.5%	77.11%	84.2%	89.9%	90.2%
Cymru	71.6%	74%	77%	76.5%	71.1	

Mae canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 mewn TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr wedi'i nodi yn y tabl isod:

	2011	2012	2013	2014	2015	2016 (targed)
Cyngor Merthyr	48.2%	47.4%	57.6%	45.6%	51.1%	56.1%
Cymru	47.6%	50%	50%	52.3%	50.9%	

Mae nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau Cymraeg Ail Iaith wedi'i amlinellu yn y tabl isod:

	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Carfan	658	670	695	612	614	614
Ymgeiswyr TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Byr	257	304	295	366	350	266
Canran y garfan (cwrs byr)	39.1%	45.4%	42.14%	59.8%	56.8%	43.3%
Ymgeiswyr TGAU Cymraeg Ail Iaith Cwrs Llawn	86	71	83	95	99	176
Canran y garfan (cwrs llawn)	13.1%	10.6%	11.9%	15.5%	16.1%	28.7%
Ymgeiswyr tystysgrif NVQ yn Gymraeg					62	64
Canran y garfan					10%	10.4%
Disgyblion na wnaeth sefyll arholiad allanol mewn Cymraeg Ail Iaith	315	295	317	151	105	108
Canran y garfan na wnaeth sefyll arholiad allanol yn Gymraeg	47.87%	44.03%	45.61%	24.7%	17.0%	17.6%

Mae'r ddwy Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg wedi meithrin perthynas â'r siarter Iaith Gymraeg.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd y Cynghorwyr Her Cyfrwng Cymraeg a Swyddogion Cymraeg mewn Addysg yn parhau i weithio gydag ysgolion cyfrwng Saesneg yr awdurdod i helpu i godi safonau mewn Cymraeg a llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Bydd ysgolion, drwy Wasanaeth Gwella Ysgolion yr Awdurdod Lleol, yn parhau i gael cymorth cwricwlwm i godi lefela cyrhaeddiad. Bydd ysgolion yn cael mynediad i raglen hyfforddi gynhwysfawr i staff er mwyn eu galluogi i gyflawni rhaglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn ymateb i fentrau a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru i godi safonau ymhellach.

Bydd Gwasanaeth Gwella Ysgolion yr Awdurdod Lleol yn parhau i fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd darpariaeth drwy: adolygiadau ac ymweliadau ysgol; dadansoddi data ysgol; data cymharol; adroddiadau archwilio Estyn; a gwybodaeth a gafwyd o adroddiad hunanwerthuso'r awdurdod a swyddogion allweddol.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn parhau i sicrhau bod pob disgybl mewn ysgol uwchradd yn cael cyfle i sefyll arholiad allanol mewn Cymraeg ail iaith erbyn diwedd CA4 a thrwy Swyddogion Cymraeg mewn Addysg ac ysgolion byddant yn gweithio i gynyddu canran y disgyblion sy'n gwneud TGAU Cymraeg Ail Iaith. Mae canran y disgyblion sydd wedi cofrestru i wneud TGAU Cymraeg Ail Iaith (cwrs llawn, cwrs byr ac NVQ)



wedi codi o 55.97% (2012) i 83.0%. Yn 2015, gwnaeth nifer y disgyblion sy'n dilyn y cyrsiau hyn gynyddu gan 46 disgybl o gymharu â'r rhai a gofrestrodd yn 2014.

Bydd y Consortiwm Clwstr Ysgolion yn buddsoddi mewn prosiect pontio CA2/3 a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer clwstr Pen-y-Dre, ond mae e bellach wedi cael ei gynnig ar draws yr holl glystyrau o ran datblygu pontio iaith Gymraeg. Mae'r buddsoddiad gwerth hyd at £20, 000 (5k y cwlster). Nod y prosiect yw datblygu rhaglen bontio effeithiol o CA2 i CA3 gyda phwyslais ar barhad sgiliau iaith a gwell deilliannau. Bydd hyn yn sicrhau fod yr holl ysgolion uwchradd yn ymwybodol o'r sgiliau Cymraeg y mae disgyblion wedi eu derbyn a bydd yn gallu adeiladu continwwm er mwyn gwneud yn siŵr fod y sgiliau datblygu yn parhau'n effeithiol cyn gynted ag y mae'r disgyblion yn dechrau Blwyddyn 7.

Bydd hyb Partneriaeth Cyfrwng Cymraeg Merthyr yn parhau yn ystod 2017/18 gan ddarparu cefnogaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a CA2.

Bydd darpariaeth a safonau ar gyfer Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 4 yn parhau i gael eu gwerthuso a bydd arfer da yn cael ei ledaenu. Darperir cymorth, os bydd angen, gan Arweinwyr System Cymraeg a Swyddogion Cymraeg mewn Addysg.

### **5.5 Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth**

Mae'r wyth swyddog Cymraeg mewn Addysg sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ar draws yr ardal yn amrywio'r cymorth maent yn ei gynnig ar yr agwedd hon yn dibynnu ar angen.

Mae swyddogion Cymraeg mewn Addysg yn categoreiddio ysgolion cynradd drwy raddio Cymraeg ail iaith gyda choch/oren/gwyrdd. (DS: System fewnol yw hon ac ni ddylid ei chymysgu â'r system categoreiddio genedlaethol). Bydd ysgolion sydd wedi eu categoreiddio yn wyrdd neu'n felyn yn parhau i gael cymorth ond anogir cydlynwyr Cymraeg ail iaith i gynnal Asesiadau Gwrando ar Ddysgwyr, teithiau dysgu ac archwiliadau Helpwr Heddiw yn annibynnol yn y lleoliadau hynny. Mae swyddogion Cymraeg mewn Addysg wedi creu taflenni asesu yn cynnwys canllawiau y gellir eu defnyddio i wneud dyfarniadau a chynllunio'r ffordd ymlaen.

Ysgolion sydd wedi'u rhoi mewn categorïau oren neu goch yw'r rhai lle mae ymyrraeth yn yr ystafell ddosbarth yn briodol gan fod angen gwella safonau mewn rhai meysydd. Mae hyn yn cynnwys cymorth yn y dosbarth a chymorth ehangach o ran Cymraeg achlysurol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi buddsoddi i ddatblygu'r defnydd achlysurol o Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae Pecyn Cymorth Datblygu'r Gymraeg, yn seiliedig ar anghenion ysgolion, ar waith ac wedi'i rannu ag ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae Arweinwyr System Cymraeg yn gweithio'n agos gydag ysgolion i godi proffil y Gymraeg ymhellach. Yn ogystal, mae Athrawon Bro yn cynghori ysgolion drwy:

- ddangos i athrawon sut i gymryd cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwersi enghreifftiol mewn ysgolion cynradd;
- annog strategaeth Helpwr Heddiw, gyda disgyblion yn cael cyfrifoldeb dros roi cyfarwyddiadau a gorchmynion i'w cyd-ddisgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg;
- cyfrannu at gyrsiau y Cyfnod Sylfaen ar ddatblygu'r Gymraeg;
- creu dogfen Cymraeg Bob Dydd yn dangos cronfeydd cynyddol o iaith i'w defnyddio mewn ysgolion (mae copi ar wikispace);
- darparu cronfa o arwyddion Cymraeg i'w harddangos (copi ar wikispace);
- darparu hyfforddiant ar gyfer LSAs (Cyrsiau Cymraeg dwys).

#### Camau a Gynlluniwyd

Parhau i gefnogi amrywiaeth o ddarparwyr a mentrau er mwyn datblygu'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

### **5.6 Cynyddu cyfanswm rhai sy'n cofrestru i wneud Safon Uwch Cymraeg fel canran o'r rhai sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg**

Mae gan yr awdurdod bartneriaeth fuddiol lwyddiannus gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf i ddarparu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Mae Consortiwm Canolbarth y De wrthi'n dadansoddi'r data diweddaraf a bydd yn ystyried targedau rhanbarthol a fesul awdurdodau lleol unigol yn sgil y sefyllfa bresennol. Mae'r consortiwm a'r awdurdodau lleol ynddo yn hyderus bod yr holl dargedau yn y cyfnod sydd ar ddod yn gadarn ond yn heriol. Cânt eu hystyried dros yr wythnosau nesaf a'u cyfleu i bartneriaid ar ddechrau mis Rhagfyr. Bydd hyn yn caniatáu i bartneriaid ddadansoddi'r targedau a herio unrhyw dargedau nad ydynt yn ymddangos yn ddigon heriol ar lefel yr Awdurdod Lleol/Consortiwm. Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Iaith Gyntaf.

#### Cyfnod Allweddol 4

Blwyddyn	Cofrestru Cymraeg Iaith Gyntaf	Nifer sy'n astudio 5+ pellach L1 neu L2 cymwysterau cyfrwng Cymraeg	% sy'n astudio 5+ pellach L1 neu L2 cymwysterau cyfrwng Cymraeg
2015/16	157	105	66.88

Blwyddyn	Cofrestru Cymraeg Iaith Gyntaf	Nifer sy'n astudio 2+ pellach L1 neu L2 cymwysterau cyfrwng Cymraeg	% sy'n astudio 2+ pellach L1 neu L2 cymwysterau cyfrwng Cymraeg
2015/16	157	137	87.26

Cyfanswm y rhai sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf Safon Uwch fel canran o'r rhai a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Cofrestru TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf 2014	Cofrestru Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf 2016	%
172	8	2.91

Cofrestru Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf 2016	%
7	i'w gadarnhau

Mae tua 3 y cant o ddysgwyr yng Ngholeg Merthyr Tudful, 89 llawn amser a rhan amser, yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Mae'r coleg yn cynnig rhaglen Cymraeg UG/Safon Uwch ail iaith.

#### Canlyniad 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

- Gwella darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) drwy gyfrwng y Gymraeg

#### Y Sefyllfa Bresennol

Mae adolygiad blynyddol o anghenion ar gyfer darpariaeth arbenigol sy'n ystyried anghenion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Bydd yr awdurdod yn parhau i fonitro'r galw drwy nifer y disgyblion y mae'r Seicolegwyr Plant Addysgol yn argymhell sydd angen darpariaeth arbenigol, sy'n parhau i fod yn nifer fechan.

O ganlyniad i adolygiad blynyddol o anghenion, mae gwasanaethau ychwanegol wedi dod ar gael drwy nifer y Gymraeg drwy benodi staff wedi'u targedu. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau yn Gymraeg i ddisgyblion ag ADY. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau Seicoleg Addysgol
- Cymorth Cynorthwywyr Cymorth Dysgu 1:1
- Cymorth Iaith
- Cymorth Nam ar y Clyw
- Datganiad a chymorth Adolygiad Blynyddol i rieni
- Aseidiadau Sgiliau Sylfaenol (llythrennedd a rhifedd)
- Cymorth i athrawon ar gyfer datblygu ac adolygu Cynlluniau Addysg Unigol
- Cymorth Ymddygiad
- Cymorth bugeiliol addysg heblaw yn yr ysgol / Unedau Cyfeirio Disgyblion a chyflwyno'r cwricwlwm
- Addysg arbennig / yn y cartref
- Cymorth i bontio i CA3
- Cymorth i deuluoedd disgyblion sy'n pontio i ysgol arbennig
- Cymorth pontio rhwng sefydliadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cynradd
- Taflenni gwybodaeth i rieni
- Cymorth i CydAAA a Hyfforddiant a Digwyddiadau Fforwm CydAAA
- Gwasanaeth cyfieithu
- Arweiniad Gyrfaol

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd y Tîm ADY yn parhau i asesu'r angen am ddarpariaeth Cymraeg arbenigol.

---

#### ***Sut mae'ch awdurdod yn gwerthuso'r galw am ddarpariaeth ADY Cymraeg?***

##### Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r Awdurdod yn ystyried Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ac yn ceisio diwallu anghenion addysgol arbennig ei holl ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion dwyieithog a/neu'r rhai sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan fydd gan ddisgybl anawsterau dysgu sylweddol, sy'n gofyn am le mewn ysgol arbennig, mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal asesiad o dan Ddeddf Addysg 1996 i benderfynu ar lefel angen y disgybl. Pan fo cyfathrebu yn rhan fawr o anawsterau dysgu disgybl, argymhellir systemau cyfathrebu amgen e.e. arwyddo, Makaton, a byddai'r rhain yn gymwys i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Mae disgyblion yn yr ysgol arbennig yn dilyn y cwricwlwm cenedlaethol ac felly byddant yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ond does dim un disgybl yn cael asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae Athrawes Fro yn gyfrifol am ddatblygu Cymraeg Ail Iaith yng nghyd-destun ADY yn Ysgol Greenfield. Mae adolygiadau diweddar wedi dangos ansawdd uchel addysg Cymraeg a defnydd rheolaidd a dwys o Gymraeg hamddenol drwy gydol y cwricwlwm ym mhob oed. Mae Ysgol Greenfield wedi sefydlu cysylltiadau ag Ysgol Rhyd y Grug fel y gall y Gymraeg gael ei chynnal i'r disgyblion hynny sydd wedi'u haddysgu'n flaenorol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyswllt hefyd yn helpu i ddatblygu cyfleoedd cwricwlwm ar gyfer Cymraeg ail iaith.

Os yw disgybl wedi'i wahardd o'r ysgol ac angen addysg yn y cartref, neu os darperir addysg yn y cartref ar sail feddygol, darperir y deunyddiau ar gyfer addysgu plentyn yn y cartref drwy'r ysgol y mae'r plentyn wedi'i mynychu. Os yw'r plentyn wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg bydd ganddo fynediad i'r un deunyddiau ag y byddai ganddo yn yr ysgol. Gall nifer o diwtoriaid cartref addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwnaeth yr archwiliad a gynhaliwyd yn Nhymer yr Hydref 2013 awgrymu bod nifer y disgyblion a theuluoedd sydd angen cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer ADY yn fach, ac wedi'i glystyru'n llwyr â disgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod Lleol.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd yr awdurdod yn parhau i weithio gydag ysgolion a phartneriaid i hyrwyddo a gwella darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg.

---

#### ***Ym mha ffordd mae'ch awdurdod yn cysylltu â rhieni i asesu'r angen am ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg?***

### Y Sefyllfa Bresennol

O fewn y tîm ADY, mae dau athro ymgynghori ADY, Rheolwr Cwricwlwm Craidd EOTAS ac un Uwch Seicolegydd Addysgol yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.

Mae aelodau sy'n siarad Cymraeg yng Ngwasanaeth Anghenion Arbennig yr Awdurdod Lleol (o fewn cyd-Wasanaeth Seicoleg Addysg Rhondda Cynon Taf). Gall y staff proffesiynol gyfrannu at asesu anghenion addysgol arbennig plant drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â'u swyddi a chyfrifoldebau proffesiynol a Chod Ymarfer anghenion addysgol arbennig, ac yna'n cynnig cyngor, arweiniad a chymorth yn cyflawni darpariaeth addysgol arbennig priodol. Mae Seicoleg Addysgol, Athrawon Cymorth Ymddygiad, Athro i Ddisgyblion Byddar, Cwnsela Ysgol, Cyngor Gyrfa, Cymorth Cynghori Tîm ADY i gyd yn wasanaethau a gefnogir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r broses o lunio Datganiad AAA, dogfennaeth gan gynnwys Canllaw Rhieni / Gofalwyr ar gael yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Mae Cod Ymarfer AAA ar gael yn Gymraeg a Saesneg, a gellir darparu Datganiadau AAA yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog.

Mae'r holl arolygon i rieni, taflenni gwybodaeth a pheynnau cymorth ar gael yn Gymraeg ar alw, a gellir cyfieithu pob dogfen yn ôl y galw. Gall rhieni ffonio'r tîm ADY a siarad ag Athro Cynghori drwy gyfrwng y Gymraeg i drafod a datrys unrhyw faterion sy'n codi o ddydd i ddydd.

### Camau a Gynlluniwyd

Bydd yr awdurdod yn parhau i fonitro canlyniadau gwasanaethau datganiad a chymorth.

---

***Amlinellwch y cynlluniau sydd gennych ar gyfer datblygu darpariaeth ADY Cymraeg uwch gan gydweithio gydag awdurdodau lleol eraill neu ar lefel consortiwm.***

### Y Sefyllfa Bresennol

Fel yr amlinellwyd uchod, mae'r awdurdod yn gweithredu gwasanaeth cydweithio llwyddiannus gyda RCT. Mae ysgolion yn cydnabod y gwell gwasanaeth a chanlyniadau o ganlyniad i'r gwasanaeth hwn a rennir. Yng ngwasanaeth ADY Cyngor Merthyr Tudful bu cynnydd yn nifer y siaradwyr iaith gyntaf.

### Camau a Gynlluniwyd

Dylid ymchwilio i'r potensial i gydweithio gyda'r grŵp Cynhwysiant i Gonsortiwm Canolbarth y DU. Bydd y Rheolwr Cynhwysiant yn arwain ar hyn ar gyfer Merthyr Tudful.

Bydd yr awdurdod yn parhau i fonitro canlyniadau y gwasanaeth cydweithio ac i geisio ffyrdd i wella canlyniadau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

## **Canlyniad 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.**

### **7.1 Sicrhau bod nifer digonol o ymarferwyr i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg**

### Y Sefyllfa Bresennol

Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful anawsterau recriwtio ac mae newydd benodi Pennaeth yn un o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Ar ddechrau Tymor yr Hydref 2016, nid oedd unrhyw swyddi gwag ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd na swyddi gwag ar gyfer athrawon Cymraeg Ail Iaith mewn ysgolion uwchradd. Nid oedd unrhyw swyddi gwag nad oeddent yn rhai addysgu ychwaith.

Gellir gwneud ceisiadau yn Gymraeg. Mae hyfforddiant CALU drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael drwy Lywodraeth Cymru.

Mae'r consortiwm eisoes yn dadansoddi anghenion datblygu gweithlu ar draws y rhanbarth er mwyn cynllunio ei arweinyddiaeth a rhaglenni datblygu addysgu a chynnig DPP ehangach i gyd-fynd â gofynion presennol ac yn y dyfodol a setiau sgiliau. Yn y cyd-destun hwn, mae'r rhanbarth yn canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu arweinyddiaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau gallu arwain digonol yn y dyfodol. Mae methiant i

ddenu niferoedd digonol ar gyfer pennaeth yn bryder penodol yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Mae'r niferoedd sydd wedi mynychu Hyfforddiant Sabathol iaith Gymraeg fel a ganlyn:

Niferoedd sydd wedi cwblhau cwrs CS Medi 2005 - Gorffennaf 2017

Consortiwm	Awdurdod Lleol	Mynediad	Sylfaen	Uwch	Uwch i Gynorthwywyr
		Cynorthwywyr dysgu - ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	Athrawon ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg		Cynorthwywyr dysgu - ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg
CSC	Penybont	7	7		1
	Rhondda Cynon Taf	13	17	4	11
	Merthyr	3	1	1	3
	Bro Morgannwg	6	7	4	
	Caerdydd	28	18	25	5

Cofrestrïadau ar gyfer cyrsiau CS 2017/18

		Mynediad	Sylfaen	Uwch	Uwch i Gynorthwywyr
CSC	Penybont	1	1		
	Rhondda Cynon Taf				
	Merthyr				
	Bro Morgannwg	3	2		
	Caerdydd	10	7		

Dim ond i gadarnhau y byddwn yn buddsoddi i mewn i brosiect pontio CA2/3 gyda chlwstwr Pen y Dre. Ein gobaith yw y bydd brwdfrydedd Mark yn heintus ac y bydd hyn yn llwyddiant. Bydd Esther Thomas ac Emma Davies o fy nhîm Cymraeg yn arwain hyn. Mae'r buddsoddiad werth hyd at £15 000.

Bydd Partneriaeth Merthyr yn parhau eleni i ddarparu cefnogaeth i'r iaith Gymraeg.

Mae'r ddwy ysgol Cyfrwng Cymraeg wedi ymgysylltu â Siarter yr Iaith Gymraeg.

Camau a Gynlluniwyd

Bydd yr awdurdod yn parhau i fonitro recriwtio ar draws bob sector.

Nid oes swyddi gwag ar gyfer Pennaethiaid ar gael yn y sector cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, os byddai swydd wag fel Pennaeth, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau yn recriwtio person addas. Bydd llywodraethwyr yn cael hyfforddiant a chymorth priodol gan Gymorth Llywodraethwyr, Cydwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion i'w galluogi i ddelio â chyfrifoldebau recriwtio.

Bydd yr awdurdod yn cefnogi Cyrrff Llywodraethu pob ysgol pan fydd staff newydd yn cael eu penodi yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau Adnoddau Dynol a Chonsortiwm Canolbarth y De i gefnogi pob penodiad ar gyfer uwch arweinyddion.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn annog datblygiad proffesiynol athrawon medrus a chefnogi astudiaethau CPCP a datblygiad ar gyfer staff priodol. Nodir arferion addysgu da ym mhob sector ac mae cyfleoedd ar gyfer datblygu a rhannu arfer gorau yn cael eu gwneud yn ffurfiol fel rhan o yriant yr awdurdod i

wella safonau addysgu a dysgu. Mae hyn yn dilyn fformat cymorth ysgol i ysgol.

## 7.2 Gwella sgiliau ieithyddol ymarferwyr.

Mae ysgolion yn symud yn gynyddol i fodel cymorth ysgol i ysgol yn seiliedig ar asesiad cadarn o'u hanghenion gwella (wedi'u monitro gan Ymgynghorwyr Heriau ond wedi'u gyrru gan hunanasesiad yr ysgolion eu hunain). Cynigir cymorth gan ddarparwyr effeithiol o fewn sector yr ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y cymorth sydd ei angen i wella sgiliau ymarferwyr a sgiliau ieithyddol.

Cynigir cymorth i ymarferwyr drwy raglenni fel:

[Rhaglen Gwella Athrawon](#)

[Asesiad ar gyfer Dysgu mewn gwersi Cymraeg Ail Iaith](#)

[Ymarfer sy'n flaenllaw yn y sector mewn Cymraeg Ail Iaith](#)

[Herio Disgyblion Mwy Abl a Galluog \(Cymraeg Ail Iaith\)](#)

[Sgiliau Digidol yn yr Ystafell Ddosbarth Cymraeg Ail Iaith](#)

[Datblygu Llythrennedd Ddigidol mewn Cymraeg Ail Iaith](#)

[Methodoleg Addysgu Cymraeg Ail Iaith](#)

[Datblygu Darllen yn CAS3](#)

Hyfforddiant ieithyddol/arall a gynigir hefyd:

[Rhwydwaith ar gyfer Cydgysylltwyr Cymraeg Ail Iaith \(Cynradd\)](#)

[Hyfforddiant Cymraeg Dwys \(Lefel Sylfaenol\) 2 ddiwrnod \(cyflwynwyd ddwywaith eleni\)](#)

[Hyfforddiant Cymraeg Dwys \(Lefel Canolradd\)](#)

Mae rhaglenni arwain ar gyfer darpar bennaethiaid a phenaethiaid profiadol wedi cael eu datblygu hefyd. Cawsant eu datblygu i ddechrau yn Saesneg mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Addysg yn Llundain. Mae'r consortiwm yn edrych yn awr ar ddatblygu rhaglen cyfrwng Cymraeg heriol; mae rhai ymarferwyr cyfrwng Cymraeg wedi mynychu'r ddarpariaeth Sefydliad Addysg.

### Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r Grant Cymraeg mewn Addysg wedi'i defnyddio i helpu i gyflawni'r targedau a nodwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sef:

- Gwella safonau ar gyfer addysgu Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith ar draws pob Cyfnod Allweddol;
- Gwella lefelau cyflawniad plant a phobl ifanc mewn Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith ar draws pob Cyfnod Allweddol;
- Parhau i helpu plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ysgol gynradd, fel y mesurwyd gan ganran disgyblion blwyddyn 2 a blwyddyn 6 a aseswyd yn Gymraeg fel iaith gyntaf;
- Codi safonau sgiliau Cymraeg disgyblion ac athrawon drwy fentrau awdurdodau lleol a chymunedau dysgu proffesiynol.

### Camau a Gynlluniwyd

Disgwylir y bydd canlyniadau'r gweithgareddau a gefnogir gan y Grant Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys y canlynol:

- bydd penaethiaid a thimau uwch arweinwyr yn rhagweithiol wrth hyrwyddo gwella safonau dysgu ac addysg yn Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) fel y mesurwyd gan adroddiadau hunanwerthuso y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a fframwaith arolygu Estyn.
- bydd athrawon ar draws bob cyfnod dysgu yn hyderus yn eu gallu i addysgu Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) i ystod lawn y dysgwyr yn eu dosbarthiadau.
- bydd athrawon yn defnyddio asesiad i ganfod disgyblion sy'n tan-gyrraedd a than-gyflawni mewn llythrennedd cyfrwng Cymraeg a chynllunio ymyriadau effeithiol i gefnogi'r disgyblion hyn.
- bydd gwaith Cymuned Dysgu Proffesiynol a gweithgareddau rhwydweithio eraill yn arwain at ymarferwyr yn nodi a rhannu arfer da mewn addysg Cymraeg / cyfrwng Cymraeg a llunio adroddiadau iaith o safon uchel

---

***A ydych wedi cynnal archwiliad sgiliau ieithyddol yn flaenorol o'r gweithlu addysgu presennol yn eich awdurdod? Os felly, ar ba sail y diffinnir y Sgiliau Ieithyddol? A oedd canlyniadau'r ymarfer yn sail ar gyfer eich rhaglenni DPP?***

### Y Sefyllfa Bresennol

Cynhaliodd Consortiwm Canolbarth y De archwiliad o sgiliau Cymraeg staff addysgu yn ystod y flwyddyn fel rhan o waith Grant Cymraeg mewn Addysg. Mae adolygiad parhaus o nodweddion ieithyddol ysgolion yn cyfrannu at waith y tîm Cymraeg mewn Addysg Canolbarth y De. Bwriad yr adolygiad oedd casglu gwybodaeth gyson yn genedlaethol er mwyn gwella'r gwaith o gynllunio a thargedu rhaglenni hyfforddiant a chymorth yn y dyfodol. Roedd yr adolygiad yn cynnwys yr ymarferwyr canlynol: Athrawon a chynorthwywyr addysgu mewn ysgolion cynradd (cyfrwng Cymraeg a Saesneg).

Paratowyd holiadur, a oedd yn cynnwys disgrifwyr lefel sgiliau iaith, ar gyfer yr adolygiad er mwyn casglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg ymarferwyr yn ogystal â'u hanghenion hyfforddiant. Gofynnwyd i benaethiaid gwblhau holiadur ar ran eu staff, gan ddyrannu categori i bob ymarferydd. Cafodd holiaduron wedi'u cwblhau eu dychwelyd gan dros 90% o ysgolion ar draws Consortiwm Canolbarth y De.

### Camau a Gynlluniwyd

Bydd yr awdurdod yn parhau i fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd darpariaeth mewn ysgolion. Ar y cyd â Chonsortiwm Canolbarth y De, bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod y Grant Cymraeg mewn Addysg yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac i gynnal digon o Swyddogion Cymraeg mewn Addysg i ddarparu hyfforddiant penodol a chymorth mentora i athrawon ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, i wella methodoleg.

Bydd Swyddogion Cymraeg mewn Addysg yn

- gweithio mewn partneriaeth er mwyn codi safonau dysgu a hyfforddiant Cymraeg (iaith gyntaf) yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yr awdurdod;
- darparu rhaglen o gymorth cwricwlwm a her ar gyfer ysgolion wedi'u targedu er mwyn datblygu sgiliau ymarferwyr ymhellach a chynyddu gallu ysgolion i ddarparu addysg a dysgu llythrennedd cyfrwng Cymraeg os afon uchel.
- cynllunio a chyflwyno rhaglen wedi'i thargedu o gymorth yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata perfformiad ar gyfer ysgolion er mwyn diwallu anghenion llythrennedd cyfrwng Cymraeg o ysgolion wedi'u blaenoriaethu, yr awdurdodau lleol a'r Consortiwm yn cynnwys helpu ymarferwyr sy'n gyfrifol am addysgu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- cyfrannu fel y bo'n briodol at ddatblygu a darparu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys gwaith cymunedau dysgu proffesiynol, er mwyn gwella methodoleg dysgu ac addysgu llythrennedd Cymraeg / cyfrwng Cymraeg ar draws y cwricwlwm.
- cryfhau parhad iaith ar draws y cyfnodau allweddol (Cyfnod Sylfaen / CA2 / CA3 / CA4) drwy hyrwyddo trefniadau pontio.
- darparu mentora ar gyfer ymarferwyr sydd wedi cwblhau cyrsiau hyfforddiant iaith Cynllun Sabothol.
- helpu ysgolion i ddatblygu dibynadwyedd a dilysrwydd asesiad athrawon drwy rannu arfer gorau mewn gwaith safoni clystyrau.
- helpu ysgolion i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Bydd Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i ddarparu cymorth ieithyddol drwy raglen hyfforddiant a ddarperir i hybiau mewn ysgolion yng nghyfnod allweddol 3 a 4 drwy rhaglenni wedi'u targedu i athrawon cynradd sy'n cynnwys ymweliadau â Hybiau Cymraeg Ail Iaith mewn cysylltiad â llefaredd.

### Cymraeg Ail Iaith - Cynradd

- Datblygiad/methodoleg sgiliau Cymraeg dwys ar gyfer ymarferwyr
- Cyrsiau 2 ddiwrnod ar gyfer agweddau ar ddatblygiad iaith ac addysgeg i gynyddu nifer yr athrawon sydd â digon o wybodaeth am Gymraeg i'w haddysgu fel pwnc ail iaith i ddisgyblion o'r Cyfnod Sylfaen i ddiwedd Cyfnod Allweddol 2
- Ymweliadau dilynol gan Swyddogion Cymraeg mewn Addysg i ddarparu cymorth strategol ychwanegol i ysgolion
- Targedu ysgolion unigol i gefnogi'r defnydd o gyfleoedd Sabothol Llywodraeth Cymru ar gyfer athrawon unigol

Meini prawf ar gyfer targedu ysgolion i fynychu cyrsiau Cymraeg dwys:

- Aseidiadau llinell sylfaen Swyddogion Cymraeg mewn Addysg
- Canlyniadau asesiad athrawon Cymraeg ail iaith CA2
- Adroddiadau arolygu ESTYN
- Ceisiadau ysgolion unigol

- Cronfa ddata o sgiliau Cymraeg athrawon
- Rôl a chyfrifoldebau arweinydd cwricwlwm Cymraeg ail iaith
- Asesiad o Gymraeg ail iaith (pecyn)
- Datblygu proffiliau dysgwyr mewn Cymraeg ail iaith ar draws CA2/3
- Datblygu sgiliau darllen mewn Cymraeg ail iaith yn CA2
- Datblygiad Cymraeg / dwyieithrwydd ar draws y cwricwlwm (pecyn)
- Datblygiad Cymraeg / dwyieithrwydd ar gyfer Penaethiaid
- Defnyddio TGCh mewn datblygiad Cymraeg ail iaith, gan gynnwys defnyddio iPad i ddysgu ac addysgu a datblygu HWB (plattform dysgu digidol newydd ar gyfer sefydliadau ddysg 3-19 oed yng Nghymru)
- Cymraeg ail iaith mewn ysgolion arbennig
- Y Pod Antur
- Datblygu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth – canolfan Urdd Gobaith Cymru yng Nghanolfan y Mileniwm

Cymraeg ail iaith – Uwchradd a ddarperir gan ysgolion hyb cyfrwng Cymraeg

- Datblygiad sgiliau Cymraeg ar gyfer ymarferwyr (Gloywi iaith)
- Methodoleg addysg Cymraeg ail iaith
- Datblygiad Cymraeg ar gyfer cynorthwywyr addysg
- Datblygiad Cymraeg / dwyieithrwydd ar gyfer Penaethiaid
- Datblygu proffiliau dysgwyr mewn Cymraeg ail iaith ar draws CA2/3
- Y defnydd o TGCh mewn datblygiad Cymraeg, gan gynnwys defnyddio iPad wrth ddysgu ac addysgu a datblygu HWB
- Datblygiad Cymraeg/dwyieithrwydd ar draws y cwricwlwm (pecyn)
- Rôl a chyfrifoldebau arweinydd cwricwlwm Cymraeg ail iaith

Drwy Gonsortiw Canolbarth y De, bydd cymorth pellach ar gael i ysgolion wedi'u targedu yn seiliedig ar berfformiad disgyblion a sgiliau iaith staff. Y nod yw parhau i ddarparu darpariaeth o safon gan y Swyddogion Cymraeg mewn Addysg er mwyn cefnogi athrawon meithrin, cynradd ac uwchradd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

---

***Sut y byddwch yn nodi anghenion ar gyfer gwell hyfforddiant mewn methodoleg ar gyfer y rhai sy'n addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg?***

Camau a Gynlluniwyd

Er mwyn nodi anghenion ar gyfer hyfforddiant mewn methodoleg ar gyfer rhai sy'n addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, bydd Awdurdod Lleol yn parhau i fonitro a gwerthuso safonau ac ansawdd darpariaeth, drwy ddadansoddi adroddiadau arolygu Estyn a gwybodaeth a gafwyd gan Gydwasanaeth Addysg Consortiw Canolbarth y De.

Mae'r Awdurdod Lleol, ar y cyd â Chydwasanaeth Addysg Consortiw Canolbarth y De (CSCJES), yn cynllunio defnydd strategol Grant Cymraeg mewn Addysg i sicrhau bod digon o Swyddogion Cymraeg mewn Addysg i ddarparu hyfforddiant penodol a chymorth mentora ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, i wella methodoleg. Bydd yr Awdurdod Lleol / Cydwasanaeth Addysg Consortiw Canolbarth y De yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod grant Cymraeg mewn Addysg yn cael ei gynllunio'n strategol ar yn effeithiol. Bydd y dystiolaeth a ystyrir yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiadau perfformio blynyddol ysgolion;
- Adroddiadau monitro ysgolion a phynciau;
- Hunanwerthusiadau ysgolion, cynlluniau gwella a phontio; data perfformiad Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3;
- Adroddiadau arolygu Estyn a chyhoeddiadau (awdurdodau lleol ac ysgolion).

---

***Sut y byddwch yn cynllunio rhaglen DPP Cymraeg a chyfrwng Cymraeg mewn partneriaeth ag eraill? Pa ddefnydd strategol fydd yn cael ei wneud o'r Cydgyssylltwyr Consortiw Cymraeg?***

***Sut y byddwch chi'n sicrhau bod Swyddogion Cymraeg mewn Addysg yn cael eu defnyddio'n strategol ar gyfer hyfforddi a mentora?***

Y Sefyllfa Bresennol



Ers mis Medi 2012, mae Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De (CSCJES) wedi bod yn gyfrifol am ddarparu rhaglen DPP effeithiol ar draws pum Awdurdod Lleol sy'n aelod. Cafodd y ddarpariaeth Swyddogion Cymraeg mewn Addysg ei hadolygu ar adeg sefydlu Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De a'u rôl wedi esblygu er mwyn herio safonau a gyflawnwyd gan ysgolion a darparu hyfforddiant a mentora addysg ar gyfer athrawon a chynorthwyr cymorth dysgu.

#### Camau a Gynlluniwyd

Rheolwyr llinell Swyddogion Cymraeg mewn Addysg yw uwch gynghorwyr strategol ar gyfer ysgolion cynradd. Nodau'r tîm yw:

- codi safonau cyflawniad mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith;
- cynyddu gallu ysgolion i gyflawni addysg a dysg o safon uchel yn Gymraeg; a
- gwella strategaethau a methodoleg ar gyfer addysgu Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith.

Mae Cynghorwyr Her Cymraeg yn ymgynghori ac yn gweithio'n agos gyda'r tîm sabothol. Mae pob ysgol wedi cael gwybod am y cyfle hwn a hyd yma mae dau athro uwchradd wedi mynychu'r cwrs sabothol a bellach yn addysgu Cymraeg fel ail iaith.

Mae'r grid canlynol yn nodi nifer yr ymarferwyr sydd wedi mynychu cyrsiau Cymraeg fel rhan o'u proses gynefino a datblygiad proffesiynol cynnar yn ystod blwyddyn academaidd 2015-16.

	<b>Cynradd</b>	<b>Uwchradd</b>	<b>Cyfanswm</b>
<b>Mynychwyr</b>	3	0	3

Yn ôl anghenion a nodwyd gan ysgolion, mae angen i gyrsiau ar gyfer athrawon Cymraeg iaith gyntaf cynradd ac uwchradd i helpu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Gweithgareddau a ddarparwyd gan Gonsortium Canolbarth y De y gall ysgolion gael mynediad iddynt drwy gronfeydd Cymraeg mewn Addysg dirprwyedig:

Cymraeg iaith gyntaf – Cynradd/Uwchradd

- Y Fframwaith Llythrennedd – gweithgareddau cysylltiedig gan gynnwys y profion llythrennedd
- Llythrennedd ar draws y cwricwlwm
- Datblygu sgiliau Cymraeg – siarad a gwranddo, darllen ac ysgrifennu (pecyn)
- 'Symud o Lefel 4 i 5' – gwneud cynnydd ar draws y cyfnodau allweddol
- Datblygiad sgiliau Cymraeg ar gyfer ymarferwyr (*Gloywi iaith*)
- Rôl a chyfrifoldebau arweinydd cwricwlwm Cymraeg
- Aseiad, gan gynnwys datblygu proffiliau dysgwyr mewn Cymraeg ar draws CA2/3
- Y defnydd o TGCh gan gynnwys datblygiad Cymraeg, gan gynnwys defnyddio iPad mewn dysgu ac addysgu a datblygu HWB

Bydd yr awdurdod yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol eraill i sicrhau bod y rhaglen yn cynnwys amrywiaeth briodol o weithgareddau hyfforddiant yn canolbwyntio ar wella safonau darllen, ysgrifennu, siarad a gwranddo yn Gymraeg ar draws y cwricwlwm.

#### ***Sut y byddwch chi'n defnyddio'r rhaglen DPP i wella safonau llythrennedd/llythrennedd deuol?***

#### Camau a Gynlluniwyd

Yr awdurdod lleol i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill i sicrhau bod y rhaglen DPP Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn cynnwys amrywiaeth briodol o weithgareddau hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar wella safonau darllen, ysgrifennu, siarad a gwranddo yn Gymraeg ar draws y cwricwlwm.

Yr awdurdod lleol i gydweithio â'i bartneriaid yng Nghonsortium Canolbarth y De, i gynnig cymorth ar gyfer datblygiad llythrennedd Cymraeg, yng nghyd-destun Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith, yn unol â pholisi a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella safonau llythrennedd. Caiff y gwaith hwn ei arwain a'i gydlynu gan yr arweinydd strategol ar gyfer Cymraeg o fewn Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De. Bydd yr awdurdod lleol a Chydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn sicrhau bod cymorth wedi'i dargedu i'r ysgolion hynny y mae'r angen fwyaf o ran safonau disgyblion a sgiliau athrawon.

Mae Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn cynnwys darparu cymorth ychwanegol drwy gyngor, ymgynghori a gwasanaethau hyfforddi y gall ysgolion brynu o'u hadnoddau dirprwyedig eu hunain, yn unol ag anghenion a nodwyd yn eu cynlluniau gwella.

Bydd yr Awdurdod Lleol a Chydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i esblygu a datblygu'r gwasanaeth cyfredol fel y gall:

- gefnogi ysgolion yn ôl anghenion unigol;
- cynghori ysgolion unigol drwy drafodaethau ag aelodau allweddol o staff ar strategaethau i godi safonau Cymraeg ail iaith a sgiliau llythrennedd;
- canolbwytio ar hyfforddiant a mentora yn yr ystafell ddosbarth e.e. drwy wersi enghreifftiol ac addysgu tîm;
- mentora ymarferwyr ystafell ddosbarth;
- mentora darpariaeth ac adolygu cynnydd disgyblion;
- gwerthuso darpariaeth mewn gwersi a chynnig cyngor a chymorth;
- adroddiad ar safonau disgyblion a darpariaeth ysgol.

Bydd darpariaeth Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De hefyd yn sicrhau y gall cymorth ychwanegol gael ei dargedu'n briodol, yn seiliedig ar:

- safonau cyflawniad disgyblion;
- sgiliau iaith ymarferwyr ystafell ddosbarth;
- presenoldeb Athrawon Newydd Gymhwysu (ANG) ac arweinwyr pwnc newydd;
- effeithiolrwydd cynllunio darpariaeth ar gyfer y Gymraeg;
- pontio CA2-3 a rhannu data.

Bydd arweinydd strategol Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De ar gyfer y Gymraeg yn monitro, gwerthuso ac yn adrodd ar y cymorth a ddarparwyd gan y Tîm Cymraeg mewn Addysg.

---

***Beth yw'ch cynllun i gefnogi faint o athrawon (pob lefel) sy'n dilyn cyrsiau cynllun sabothol Cymraeg Llywodraeth Cymru mewn ffordd strategol a systematig o fewn eich awdurdod lleol? Faint o ymarferwyr sydd wedi denu cyrsiau Cymraeg fel rhan o'u rhaglen gynefino/Datblygiad Proffesiynol Cynnar?***

#### Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r Awdurdod Lleol bob amser wedi gweithio'n agos gyda gweinyddwyr cynllun sabothol Cymraeg Llywodraeth Cymru i dargedu athrawon a chynorthwyyr addysgu yn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg Merthyr Tudful sydd wedi'u cymell ac y byddent yn cael budd o ddilyn y cyrsiau. Mae'r ddarpariaeth hyd yma wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ysgolion ac wedi bod yn gyfrwng pwysig wrth godi safonau a hyder unigolion wrth gyflwyno Cymraeg, fel iaith gyntaf ac ail iaith.

Ynghyd â hyn, bydd tîm o Swyddogion Cymraeg mewn Addysg Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn ymgynghori ac yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r Cynllun Sabothol ac mae pob ysgol wedi cael gwybod am y cyfle hwn.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd yr Awdurdod Lleol ac ysgolion yn parhau i gefnogi athrawon sydd am ddilyn y rhaglen hyfforddi sabothol. Bydd y Swyddogion Cymraeg mewn Addysg Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn canfod ymarferwyr addas yn flynyddol ac yn cyfeirio at y Cynllun Sabothol. Byddant yn darparu cymorth dilynol ar gyfer ymarferwyr sydd wedi mynychu'r rhaglen.

---

***Faint o ymarferwyr sydd wedi mynychu cyrsiau Cymraeg fel rhan o'u rhaglen gynefino/Datblygiad Proffesiynol Parhaus?***

#### Y Sefyllfa Bresennol

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu nifer yr ymarferwyr sydd wedi mynychu cyrsiau Cymraeg a drefnwyd gan LiNKS fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus yn ystod blwyddyn academiaidd 2015-16:

	Cynradd	
<b>Cyngor Merthyr</b>	Iaith Gyntaf	Ail Iaith
<b>Mynychwyr</b>	10	3

### Camau a Gynlluniwyd

Bydd Cydwasaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i gefnogi athrawon newydd gymhwyso ac athrawon datblygiad proffesiynol cynnar.

### **7.3 Integreiddio ystyriaethau cyfrwng Cymraeg ym mhob agwedd ar Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion**

Mae'r pum awdurdod lleol sy'n rhan o gonsortiw m canolbarth y de wedi cytuno ar fodel gwella ysgol yn seiliedig ar gymorth ysgol i ysgol.

Mae'r Consortiw m wedi'i gomisiynu gan, ac yn gweithredu ar ran, y pum awdurdod lleol i ddatblygu gwasanaeth gwella ysgolion sy'n herio a chefnogi ysgolion yn eu gwaith i godi safonau a galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol.

Mae'r rhanbarth wedi datblygu Her Canolbarth De Cymru (CSWC).

Mewn cysylltiad â gwella canlyniadau mewn Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith a chwblhau gofynion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae'n golygu:

Mae pob ysgol yng Nghonsortiw m Canolbarth y De yn rhan o Grwpiau Gwella Ysgolion (SIGs). Mae Grwpiau Gwella Ysgolion yn nodi meysydd ar gyfer datblygu ar gyfer grwpiau o ysgolion ac yn cynnig neu'n comisiynu cymorth gofynnol er mwyn gwella. Bydd y meysydd ar gyfer gwella yn cynnwys cyfrwng Cymraeg a Chymraeg ail iaith lle mae'r ysgolion yn cytuno bod y rhain yn feysydd i'w datblygu. Mae hybiau gwella a chanolfannau arbenigol, yn seiliedig mewn ysgolion ac sy'n defnyddio arbenigedd ymarferwyr effeithiol, yn cynnig rhaglen o gymorth. Mae Consortiw m Canolbarth y De wedi sefydlu tri hyb cyfrwng Cymraeg, 3 hyb ysgol uwchradd Cymraeg ail iaith i gynnal cymorth ar draws y rhanbarth. Mae hyb Cymraeg ail iaith ysgol gynradd wedi'i gynllunio hefyd.

Mae Consortiw m Canolbarth y De yn cefnogi ffederasiwn sydd newydd ei sefydlu o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (mae hyn yn cynnwys yr holl ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y pum awdurdod lleol) a'r rhwydwaith cyfrwng Cymraeg uwchradd. Bydd y rhain yn gweithio i nodi anghenion cymorth y sector a chomisiynu hybiau/modelau cymorth Her Canolbarth De Cymru arall i gyflwyno'r cymorth sydd ei angen. Mae nifer o'r ysgolion eisoes yn ysgolion hwb sy'n cynnig rhaglenni dan arweiniad ymarferwyr o hyfforddiant a chymorth i ysgolion eraill ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal, bydd dau Swyddog Cymraeg mewn Addysg sydd wedi'u lleoli'n ganolog yn y consortiw m yn gweithio gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg; Cynghorydd Cymraeg Cymwys am Oes (athro ysgol uwchradd ar secondiad) mewn swydd, i weithio gyda'r sector cyfrwng Cymraeg uwchradd yn cynnig cymorth ar gyfer manylebau TGAU newydd ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf. Cefnogir Llythrennedd Cymraeg hefyd.

Mae wyth Swyddog Cymraeg mewn Addysg yn gweithio o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cefnogi ymarferwyr i hyrwyddo safonau addysgu a dysgu rhagorol a llythrennedd mewn Cymraeg ail iaith. Mae'r Swyddogion Cymraeg mewn Addysg hefyd yn creu amrywiaeth o adnoddau i'w defnyddio mewn ysgolion sydd i'w gweld hefyd ar wefan benodol.

---

### ***Faint o gynorthwywyr addysgu sydd wedi mynychu cyrsiau Cymraeg yr awdurdod?***

#### Perfformiad Presennol

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu nifer y cynorthwywyr cymorth dysgu a chynorthwywyr addysgu sydd wedi mynychu cyrsiau Cymraeg a drefnwyd gan y CSC fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol 2015-16:

Cyrsiau Cymraeg ar gyfer cynorthwywyr cymorth dysgu a chynorthwywyr addysgu	2
---	---

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael i gefnogi cynorthwywyr cymorth dysgu a chynorthwywyr addysgu.

#### ***Faint o Gymunedau Dysgu Proffesiynol sy'n rhoi ystyriaeth i welliant mewn methodoleg Cymraeg (iaith Gyntaf ac Ail iaith) a chyfrwng Cymraeg/dwyieithog?***

#### Perfformiad Presennol

Mae elfen Gymraeg o strategaeth llythrennedd yr awdurdod lleol wedi gweithio'n agos i gynnwys elfennau o arfer da mewn ysgolion cynradd wedi'u targedu ac mae'r ysgolion hynny wedi cydweithio er mwyn dysgu o'i gilydd a datblygu eu harfer eu hunain. Mae gwaith clwstwr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi arwain at fwy o gydweithio nag o'r blaen, gan ganolbwyntio ar elfennau o arfer da wedi'u cysylltu ag asesu gwaith disgyblion gan felly arwain at welliant mewn parhad a chynnydd rhwng y sector cynradd ac uwchradd.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd arian Grant Cymraeg mewn Addysg yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i helpu i sefydlu a datblygu Cymunedau Dysgu Proffesiynol (PLCs) mewn ysgolion ac ar sail clwstwr a rhanbarthol i rannu arfer da ac ymchwilio i strategaethau addysgu arloesol i helpu i godi safonau llythrennedd yn Gymraeg.

#### ***Pa elfennau o'r gwaith i helpu i addysgu Cymraeg a Chymraeg Ail iaith fydd yn cael eu darparu ar lefel y consortiwm? Pa gynlluniau sydd gennych chi i gynyddu'r elfennau hynny ac agweddau eraill a gyflwynwyd gan y consortiwm?***

#### Perfformiad Presennol

Sefydlwyd Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De ar y sail y bydd yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion a rennir, gan gynnwys cymorth i addysgu Cymraeg a Chymraeg Ail iaith. Mae'r rhaglen DPP yn ymgorffori'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol drwy ganolbwyntio ar:

- godi safonau llythrennedd yn Gymraeg;
- gwella canlyniadau dysgu a lles i blant a phobl ifanc waeth beth fo'u cefndir economaidd gymdeithasol;
- lleihau amrywiad yn y canlyniadau dysgu o fewn a rhwng ystafelloedd dosbarth ac ysgolion o fewn yr awdurdod lleol ac aelodau eraill o'r consortia;
- codi dyheadau i bob disgybl;
- codi safonau o ran sgiliau Cymraeg athrawon drwy fentrau'r awdurdod lleol a chymunedau dysgu proffesiynol.

#### Camau a Gynlluniwyd

Bydd datblygiad parhaus Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De yn ystyried yr angen i ddarparu her briodol a chymorth er mwyn sicrhau gwelliant mewn safonau Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith.

Bydd y defnydd o Grant Cymraeg mewn Addysg yn cael ei gynllunio'n strategol ar draws y consortiwm er mwyn helpu i gyflawni'r targedau a nodwyd yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, sef:

- gwella safonau addysgu (fel y mesurir gan adroddiadau arolygu Estyn ac adroddiadau hunanwerthuso ysgolion) gan arwain at welliant yn lefelau cyflawniad dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith ar draws pob cyfnod allweddol;
- cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel cynradd ac uwchradd, fel y mesurir gan ganran y disgyblion ym mlynnyddoedd 2, 6 a 9 fel yr aseswyd gyda Chymraeg iaith gyntaf. Bydd hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n astudio cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg fel y mesurir gan ymgeiswyr arholiadau cyhoeddus; a

- gwelliant yn nifer y dysgwyr sy'n datblygu eu sgiliau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, fel y mesurir gan ganran y disgyblion ym mlynedd 6 a 9 a aseswyd gyda Chymraeg ail iaith, ynghyd â chynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n dilyn cwrs astudio TGAU llawn neu gwrs tebyg.

Disgwylir y bydd canlyniadau gweithgareddau a gefnogir gan Grant Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys y canlynol:

- bydd penaethiaid a thimau uwch arweinwyr yn rhagweithiol wrth hyrwyddo gwella safonau dysgu ac addysgu yn Gymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) fel y mesurir gan Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion blyneddol, adroddiadau hunanwerthuso a fframwaith arolygu Estyn.
- Bydd athrawon ar draws pob cyfnod dysgu yn hyderus yn eu gallu i addysgu Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) i'r ystod lawn o ddysgwyr yn eu dosbarthiadau.
- Bydd athrawon yn defnyddio asesiad i nodi disgyblion sy'n tan-gyrraedd a than-gyflawni mewn llythrennedd cyfrwng Cymraeg ac yn cynllunio ymyriadau effeithiol i gefnogi'r disgyblion hyn.
- Bydd gwaith Cymunedau Dysgu Proffesiynol a gweithgareddau rhwydweithio eraill yn arwain at ymarferwyr yn nodi a rhannu arfer da ymhellach mewn addysg Gymraeg/cyfrwng Cymraeg a llunio adnoddau iaith o safon uchel.

Datganiad Cefnogol:

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi gwneud buddsoddiad sylweddol yn adeiladau ysgolion cyfrwng Cymraeg ac wedi gwella llety a chyfleusterau chwarae; gwella adnoddau yn yr ysgolion; a datblygu cyfleusterau cymunedol a meithrin yn y ddau safle. Mae'n beth da bod nifer yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn dechrau dangos arwyddion o dwf.

Mae'r awdurdod yn pwysleisio ei ymrwymiad cryf parhaus a chefnogaeth i addysg cyfrwng Cymraeg o fewn y Fwrdeistref Sirol a gyda'n partneriaid ar ddatblygu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg a system addysg sy'n ymateb i anghenion lleol ac sy'n ateb y galw yn lleol.

Bydd yr awdurdod yn parhau i weithio'n agos gyda rhieni, ysgolion a phartneriaid i gynnig cyfleoedd i bob disgybl ddysgu Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith ac i gael budd o ddiwylliant a hanes Cymru, gan gynnwys:

- codi ymwybyddiaeth am addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnig dewisiadau i rieni lle y bo'n berthnasol;
- gwella cyfraddau dilyniant gan ddefnyddio canllawiau dilyniant ieithyddol;
- cynnig hyfforddiant i ymarferwyr wella sgiliau Cymraeg; a
- gweithio gyda phartneriaid i wella safonau a chanlyniadau.

**Atodiad 1: Nifer a chanran y disgyblion sy'n mynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a lleoliadau cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a ariennir sy'n darparu'r Cyfnod Sylfaen sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog**

Enw'r Cylch Meithrin lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir	Enw'r lleoliad cyfrwng Cymraeg nas cynhelir a ariennir (Cylch Meithrin)	Nifer y lleoedd sydd ar gael a ddarperir gan y lleoliad	Nifer a drosglwyddwyd i addysg cyfrwng Cymraeg	Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg	Nifer a drosglwyddwyd i addysg cyfrwng Cymraeg	Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Cymraeg
			<b>2013-2014</b>		<b>2014-15</b>	
	Aberfan		11	100.00%	10	100.00%
	Beddllwynog		-	-	-	-
	Cefn Coed		1	6.00%	0	0.00%
	Pentrebach		26	84.00%	19	82.61%
	Soar		5	63.00%	2	50.00%
	Treharris		6	75.00%	7	87.50%
	Twyn Carmel		4	27.00%	8	50.00%
<b>CYFANSWM</b>			53	58.89%	46	59.74%

Sir	Enw Cylch	Nifer a drosglwyddwyd i Addysg Gymraeg 2015-16	% a drosglwyddwyd i Addysg Gymraeg	Nodiadau
Merthyr	Aberfan	15	100%	
Merthyr	Cefn Coed	3	37.5%	Nodwyd cynnydd cadarnhaol yn y dilyniant eleni i gymharu â llynedd ond dal gwaith dwys i wneud. Mae lefel y Gymraeg a defnyddir yn y cylch wedi gwella hefyd.
Merthyr	Pentrebach	21	84%	
Merthyr	Soar	7	46.67%	Mae cynnydd yn y dilyniant eleni i gymharu a llynedd ond dal gwaith dwys i wneud
Merthyr	Treharris	6	100%	
Merthyr	Twyn Carmel	5	23.81%	Mae'r cylch yn darpariaeth cymysg plant Dechrau'n Deg a rhai sy'n talu. Mae diffyg cludiant i'r ysgol Gymraeg lleol, Santes Tudful, yn ffactor.

Sir	Enw Cylch/ Canolfan	Nifer a drosglwyddwyd i Addysg Gymraeg 2015-16 2016-17	% drosglwyddwyd i Addysg Gymraeg	Sylwadau
Merthyr	Aberfan	5	100%	Ar safle'r ysgol a pherthynas dda gyda'r ysgol
Merthyr	Cefn Coed	6	46.15%	Nodwyd cynnydd cadarnhaol yn nilyniant eleni o'i gymharu â'r llynedd; hyrwyddo i barhau a gwelliant pellach yn ofynnol ynghylch safon iaith y Cylch.
Merthyr	Pentrebach	12	66.67%	
Merthyr	Soar			Cylch ar gau ar 28/2/17
Merthyr	Treharris	9	90%	Perthynas dda â'r ysgol. Mae'r staff yn ardderchog o ran siarad â rhieni a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
Merthyr	Twyn Carmel	8	42.11%	Mae cymysgedd o blant Dechrau'n Deg a phlant sy'n talu yn y Cylch.

**Atodiad 2: Nifer a chanran y disgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg**

Cyfanswm y disgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (Gorffennaf 2013)	Cyfanswm y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog	Canran y disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog
499 (July 2013)	47	97.92% (1 disgybl wedi symud allan o'r sir)
532 (July 2014)	61	95.31% (aeth 3 disgybl i ysgol breifat)
562 (July 2015)	62	98.41% (ni throsglwyddodd 1 disgybl i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg)
711 (July 2016)	63 (51 from YST and 18 from YRYG)	88.24%- YST 100%- YRYG 98% o gyfanswm poblogaeth Blwyddyn 6.
735 (July 2017)	86	100% YST 100%YRYG
Gorffennaf 2018	78 (amc)	
Gorffennaf 20189	86 (amc)	





### Atodiad 3: Cyrhaeddiad a pherfformiad Cymraeg Ail Iaith

Blwyddyn: 2012/13

Cyfnod Allweddol 2

	Blwyddyn Academaidd	Nifer disgyblion	Canran disgyblion	Canran cyflawni Lefel 4
Asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (fffigurau yn cynnwys Ysgol Arbennig Greenfield)	2013	476	77.65%	58.2%
	2014	487	83.10%	64.0%
	2015	384	61.24%	68.0%
	2016	503	81.26%	74.6%

### Cyfnod Allweddol 3

	Blwyddyn Academaidd	Nifer disgyblion	Canran disgyblion	Canran cyflawni Lefel 5
Asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (fffigurau yn cynnwys Ysgol Arbennig Greenfield)	2013	627	100%	69.9%
	2014	622	100%	78.6%
	2015	569	100%	84.4%
	2016	577	100%	85.6%

### Atodiad 4: Gwybodaeth i ategu'r testun yng Nghanlyniad 5:

Mae canran y dysgwyr ar ddiwedd **Cyfnod Allweddol 2** sydd wedi cyrraedd o leiaf Lefel 4 yn yr asesiad athro mewn Cymraeg wedi'i nodi yn y tabl isod:

	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+	86.8%	87.7%	85.4%	96.9%	93.5%	95.5%

Canran y dysgwyr ar ddiwedd **Cyfnod Allweddol 2** sydd wedi cyrraedd o leiaf Lefel 4 yn yr asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith:

	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Cyfnod Allweddol 2 Lefel 4+	34.2%	52.5%	58.2%	64.0%	68.0%	74.6%

Canran y dysgwyr ar ddiwedd **Cyfnod Allweddol 3** a gyrhaeddodd o leiaf Lefel 5 yn yr asesiad athro mewn Cymraeg Ail Iaith:

Lefel 5+	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	51.6%	62.4%	69.9%	78.6%	84.4%	85.6%

Mae canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 a gyrhaeddodd trothwy Lefel 2 mewn TGAU Cwrs Llawn Cymraeg Ail Iaith wedi'i nodi yn y tabl isod:

	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	83%	91.5%	77.11%	84.2%	89.9%	86.4%

Mae canran y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 a gyrhaeddodd trothwy Lefel 2 mewn TGAU Cwrs Byr Cymraeg Ail Iaith wedi'i nodi yn y tabl isod:

	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Merthyr Tydfil CBC	48.2%	47.4%	57.6%	45.6%	51.1%	48.9%

Mae nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiad Cymraeg Ail Iaith wedi'i amlinellu yn y tabl isod:


	2011	2012	2013	2014	2015	2016
Carfan	658	670	695	612	614	614
Ymgeiswyr ar gyfer TGAU Cwrs Byr Cymraeg Ail Iaith	257	304	295	366	350	266
Canran y garfan (cwrs byr)	39.1%	45.4%	42.14%	59.8%	56.8%	43.3%
Ymgeiswyr ar gyfer TGAU Cwrs Llawn Cymraeg Ail Iaith	86	71	83	95	99	176
Canran y garfan (cwrs llawn)	13.1%	10.6%	11.9%	15.5%	16.1%	28.7%
Ymgeiswyr ar gyfer tystysgrif NVQ mewn Cymraeg					62	64
Canran y garfan					10%	10.4%
Disgyblion na wnaeth sefyll arholiad allanol mewn Cymraeg Ail Iaith	315	295	317	151	105	108
Canran y garfan na wnaeth sefyll unrhyw arholiad allanol mewn Cymraeg	47.87%	44.03%	45.61%	24.7%	17.0%	17.6%

#### Atodiad 5: Rhestr o ymgynghorion statudol

Yn unol ag **Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**, bydd yr awdurdod lleol yn ymgynghori â'r canlynol ar y Cynllun drafft:

- Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf, Cyngor Sir Caerffili, Cyngor Sir Blaenau Gwent
- Pennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Ysgol Rhydywaun, Rhondda Cynon Taf
- Y Coleg, Merthyr Tudful
- Yr awdurdod esgobaethol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Partneriaeth Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- cynghorau ysgol
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Bwrdd Iechyd Lleol

Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20 hefyd ar gael ar wefan yr awdurdod fel rhan o'r prosesau ymgynghori.

Llofnod: 

Dyddiad: 20/12/16

(Mae angen i hwn gael ei lofnodi gan y Prif Swyddog Addysg yn yr awdurdod lleol)